Criminal Justice Joint Inspection

Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

HM Inspectorate of **Probation**
Arolygiaeth Prawf EM

# Plant sy'n Derbyn Gofal:

## Arolygiad o waith Timau Troseddwyr Ifanc gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac wedi'u lleoli oddi cartref

*Arolygiad ar y Cyd gan Wasanaeth Prawf Ei Mawrhydi, Ofsted ac Estyn*

Rhagfyr 2012

Criminal Justice Joint Inspection

Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

# Plant sy'n Derbyn Gofal: Arolygiad o waith Timau Troseddwyr Ifanc gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac wedi'u lleoli oddi cartref.

**Arolygiad ar y Cyd gan Wasanaeth Prawf Ei Mawrhydi, Ofsted ac Estyn**

ISBN: 978-1-84099-584-8

**Rhagfyr 2012**

## Cydnabyddiaeth

Rydym yn ddiolchgar i Dimau a  Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc yn Blackpool; Halton a Warrington; Sir Amwythig, Telford a Wrekin; Gwlad yr Haf; Gorllewin Llundain; a Wrecsam ac i bartneriaid eraill sydd wedi gweithio gyda hwy am eu cymorth gyda'r arolygiad hwn. Roedd eu parodrwydd i gymryd rhan yn y broses arolygu'n sicrhau ein bod ni'n gallu casglu'r deunydd yr oedd arnom ei angen.

Hoffem ddiolch hefyd i Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a'r Comisiwn Ansawdd Gofal am eu cyngor, i Dîm Troseddwyr Ifanc Newham am ein helpu ni i dreialu'r arolygiad ac i'r asiantaethau a'r unigolion a gyfrannodd eu hamser a'u gwybodaeth gan gynnwys y timau troseddwyr ifanc yn Bournemouth a Poole, Swydd Gaergrawnt ac Essex.

| | |
|---|---|
| *Arolygydd Arweiniol* | *Jane Attwood* |
| *Arolygwyr Prawf Ei Mawrhydi* | *Yvonne McGuckian; Tony Rolley* |
| *Asesydd Arferion Arolygiaeth Ei Mawrhydi* | *Dave Cohen* |
| *Arolygydd Ofsted* | *Matthew Brazier* |
| *Arolygydd Estyn* | *Rachael Bubalo* |
| *Staff Cymorth* | *Stephen Hunt; Oliver Kenton* |
| *Tîm Cyhoeddiadau* | *Alex Pentecost; Christopher Reeves* |
| *Golygydd* | *Andy Smith* |

## Rhagair

Mae plant a phobl ifanc sydd mewn gofal, wedi troseddu ac wedi eu lletya draw o ardal eu cartref yn grŵp bach, ond eto'n fregus iawn. Maent yn cyflwyno heriau i'r asiantaethau hynny sy'n gyfrifol am eu gofal ac am eu helpu hwy i osgoi troseddu yn y dyfodol. Yn yr arolygiad hwn ceisiasom ddarganfod pa mor effeithiol oedd Timau Troseddwyr Ifanc yn gweithio gyda'r grŵp hwn a pha mor dda'r oeddent yn cynllunio a chydlynu eu gwaith gyda chydweithwyr mewn asiantaethau eraill.

Dengys canfyddiadau'r arolygiad fod, er gwaethaf gwaith caled ac ymdrechion llawer o bobl, canlyniadau cyffredinol a chyfleoedd bywyd y plant a'r bobl ifanc hyn yn y dyfodol yn hynod wael ac mae darllen eu hanesion unigol yn peri trallod. Roedd hi'n aml yn anodd gweld o'r asesiadau pam fod llawer wedi cael eu lleoli oddi wrth ardaloedd eu cartrefi. Roedd angen gwella'r ffordd y rhennir gwybodaeth rhwng gwasanaethau gofal cymdeithasol y plant a'r Timau Troseddwyr Ifanc. Er bod staff Timau Troseddwyr Ifanc yn gweithio'n galed i ddatblygu perthynas dda gyda'r plant a'r bobl ifanc hyn ac i ddarparu ymyriadau adeiladol, roedd llawer yn methu â deall yn llawn yr effaith emosiynol o dderbyn gofal ac o fod mewn gofal preswyl.

Canfuom fod bod mewn gofal yn aml yn golygu bod plant a phobl ifanc yn cael eu cymryd i'r system gyfiawnder troseddol yn gynt na'r rhai nad oedd yn derbyn gofal. Roedd yn siomedig fod llawer wedi derbyn eu gwrandawiad llys cyntaf tra oeddent mewn gofal awdurdod lleol.

Roedd y gobeithion yr oedd gan lawer o weithwyr, ar draws pob gwasanaeth, am Blant sy'n Derbyn Gofal yn aml yn druenus o isel, roedd y ffaith eu bod hwy draw o ardaloedd eu cartrefi ac wedi cael eu symud yn milwrio'n aml yn erbyn eu siawns o adsefydlu. Roedd eu bywydau wedi eu dryllio; tarfwyd yn aml ar gysylltiadau â theulu a ffrindiau, a hefyd ar eu cyfleoedd addysg a hyfforddiant.

Mae'r plant a'r bobl ifanc hyn, mewn llawer o achosion, yn dod i gysylltiad yn ddiweddarach yn eu bywydau â naill ai'r system gyfiawnder troseddol neu wasanaethau iechyd meddwl. Mae'n amlwg o'r arolygiad hwn fod cefndiroedd a phrofiadau llawer o blant a phobl ifanc mewn gofal yn golygu nad oeddent yn cael cyfleoedd teg i arwain bywydau hapus, cyfreithlon a chynhyrchiol fel oedolion yn y dyfodol. Er mwyn i hyn newid mae angen newid sylweddol mewn polisi ac arferion gwaith.

**Liz Calderbank**
**Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi**

**Sir Michael Wilshaw**
**Prif Arolygydd Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau Ei Mawrhydi**

**Ann Keane**
**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cydnabyddiaeth | 3 |
| Rhagair | 4 |
| Cynnwys | 5 |
| Crynodeb | 6 |
| Argymhellion | 10 |
| 1. Cwmpas a Diben | 11 |
| 2. Canyniadau | 13 |
| 3. Gwaith Timau Troseddwyr Ifanc gyda phland a phobl ifanc sy'n derbyn gofal | 19 |
| 4. Gweithio gyda'n gilydd | 28 |
| Atodiad 1: Deddfwriaeth a Chanllawiau | 36 |
| Atodiad 2: Geirfa | 39 |
| Atodiad 3: Rôl yr Arolygiaethau a chod ymarfer | 40 |
| Atodiad 4: Cyfeiriadau | 41 |

# Crynodeb

## Yr Arolygiad

Cytunwyd ar yr arolygiad o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, eu lleoli oddi cartref a'u goruchwylio gan Dimau Troseddwyr Ifanc gan Grŵp y Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol, fel rhan o *Gynllun Busnes Arolygu ar y Cyd 2010-2012.* Cafodd ei arwain gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, gdya chymorth gan Ofsted ac Estyn. Ei ddiben oedd asesu effeithiolrwydd gwaith Timau Troseddwyr Ifanc gyda'r grŵp hwn o blant a phobl ifanc wrth hyrwyddo eu hadsefydlu a chynnal eu cysylltiadau â'u teulu ac ardal eu cartref (lle bo hynny'n briodol) ac adnabod unrhyw rwystrau i waith effeithiol Timau Troseddwyr Ifanc.

Ymwelasom â chwe ardal lle gofynasom i'r Tîm Troseddwyr Ifanc ddarganfod, lle'r oedd yn bosibl, ddeg o achosion, pump yr oeddent yn eu goruchwylio ar ran awdurdodau lleol eraill a phump o'u hachosion eu hunain a oedd yn cael eu goruchwylio gan Dimau Troseddwyr Ifanc eraill. Fe wnaethom wedyn asesu ansawdd gwaith ar y cyd a gyflawnwyd gan yr asiantaethau perthnasol. Cafodd y data ei ategu gan wybodaeth a gasglwyd gan nifer o Dimau Troseddwyr Ifanc nad oedd yn rhan o'r prif waith maes.

## Canfyddiadau cyffredinol

Edrychodd yr arolygiad hwn ar grŵp penodol iawn o blant a phobl ifanc, sy'n derbyn gofal, a gafodd eu lleoli oddi cartref ac sydd hefyd yn destun goruchwyliaeth gan Dimau Troseddwyr Ifanc. Mae'r grŵp hwn yn hynod fregus. Mae rhai hefyd yn peri risg uchel o achosi niwed i eraill, nid lleiaf y plant a phobl ifanc y maent wedi cael eu gosod yn eu plith.

Roedd pryderon wedi cael eu mynegi am y plant a phobl ifanc hyn gan lawer o'r Timau Troseddwyr Ifanc yr ymwelasom â hwy yn ystod ein rhaglen arolygu reolaidd o waith Timau Troseddwyr Ifanc, yn enwedig y rheini a leolwyd mewn ardaloedd gyda nifer uchel o gartrefi plant. Oddi wrthynt hwy clywsom am ddiffyg cyswllt ag ardaloedd eu cartrefi, oedi mewn derbyn gwybodaeth am freguster a risg a achoswyd i eraill ac anawsterau mewn cyfathrebu rhwng asiantaethau. Roedd hyn yn effeithio'n sylweddol ar y gwaith gan y Tîm Troseddwyr Ifanc oedd yn gyfrifol am helpu plant a phobl ifanc i roi'r gorau i droseddu.

Fe wnaeth yr arolygiad thematig hwn ddatgelu'n glir y graddau y mae bywydau'r plant hyn yn cael eu dryllio a sut y gallai'r ffaith eu bod yn derbyn gofal anfon plentyn neu berson ifanc i'r system gyfiawnder troseddol. Dangosodd hefyd sut yr oedd y ddau ffactor – bod mewn gofal a throseddu – yn dwysàu ei gilydd.

Roedd llawer o'r plant a'r pobl ifanc yr archwiliasom eu hachosion yn ystod cwrs ein harolygiad wedi cael eu gosod mewn olyniaeth o gartrefi plant. Roedd yn anodd eu holrhain yn fanwl, ond gwelsom un person ifanc gyda 31 o leoliadau ac un lleoliad a barhaodd lai na 24 awr. Roedd bron i draean wedi cael mwy na thri lleoliad y tu allan i ardal eu cartref ac roedd 18% wedi cael mwy na phump (a oedd wedi cael eu cofnodi); roedd 63% yn byw mwy na 50 milltir o'u cartref a 24% fwy na 100 milltir. (Mae rheoliadau'n pennu y dylai lleoliadau, lle mae hynny'n rhesymol ymarferol, fod o fewn ardal awdurdod lleol y cartref a chyn agosed i gartref y plentyn neu berson ifanc ag sy'n bosibl). Roedd pedwar o pump o'r rhai yn y sampl wedi cael eu symud yn ystod cyfnod goruchwyliaeth y Tîm Troseddwyr Ifanc a chwarter wedi cael eu symud fwy na theirgwaith.

Roedd yn amlwg fod y plant a'r bobl ifanc yn ein sampl ymysg y rhai mwyaf drylliedig ac anodd eu lleoli. Roedd pob un wedi profi anawsterau teuluol sylweddol, ac roeddent yn

parhau i orfod ceisio dygymod â'r canlyniadau. Canfuom fod nifer sylweddol wedi dioddef camdriniaeth – rhywiol, corfforol ac emosiynol a/neu esgeulustod. Roedd llawer wedi bod yn dystion neu'n ddioddefwyr trais domestig. Roedd gan nifer uchel broblemau emosiynol neu iechyd meddwl.

Er hynny, nid oedd yn amlwg mewn llawer o achosion, o'n harolygiad o waith Timau Troseddwyr Ifanc, sut yr oedd anghenion y plentyn yn cael eu hyrwyddo na'u diogelu gan leoliad mor bell oddi wrth ardal eu cartref. Roedd nifer sylweddol yn dal mewn cysylltiad â'u teuluoedd ac yn parhau i fynd yn ôl atynt, boed gwasanaethau gofal cymdeithasol y plant yn annog neu hyd yn oed ganiatáu cyswllt neu beidio. Mewn 55% o achosion, roedd Timau Troseddwyr Ifanc yn gweithio'n gyson gyda rhiant/gofalwr y plentyn neu berson ifanc i gynnal cyswllt.

Yn y mwyafrif o achosion, roedd y methiant mewn perthnasoedd teuluol yn cael ei ddwysàu ymhellach gan amlder y newidiadau yn y perthnasoedd proffesiynol yr oedd gofyn i'r plentyn eu berson ifanc eu gwneud, yn sgil gweithwyr cymdeithasol yn symud ymlaen, lleoliadau'n newid, addysg yn cael ei darfu a gwahanol asiantaethau arbenigol yn cael eu galw i mewn.

## Canfyddiadau allweddol

### Canlyniadau

Yn y mwyafrif llethol o'r achosion a arolygasom, roedd y canlyniadau i'r plant a'r bobl ifanc yn wael. Nid oedd plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu bob amser. Roedd rhai wedi dioddef ymosodiadau neu wedi cael eu cam-drin yn rhywiol; roedd rhai ohonynt wedi ymosod neu gam-drin plant a phobl ifanc eraill. Roeddent yn aml wedi cael eu troseddoli tra oeddent mewn gofal am droseddau na fyddai'n debygol o fod wedi mynd i'r llys petaent yn byw gartref. Roedd nifer sylweddol wedi mynd ar goll ar ryw bryd neu'i gilydd, rhai ohonynt nifer sylweddol o weithiau. Roedd eu haddysg wedi dioddef ac ychydig ohonynt oedd yn cael eu paratoi'n dda na'u cefnogi ar gyfer pontio i fod yn oedolion.

### Gwaith troseddu ieuenctid gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

I rai Timau Troseddwyr Ifanc, mae'r nifer o blant a phobl ifanc y maent yn eu goruchwylio o awdurdod lleol arall, yn gosod straen sylweddol ar eu hadnoddau. Dywedodd y Timau Troseddwyr Ifanc hyn sy'n 'lletya' wrthym bod y grŵp hwn, ar brydiau, yn cyfrif am gymaint â 20% o'u llwythi achosion a bod gwasanaethau iddynt, ac i'r plant a phobl ifanc lleol, yn dioddef oherwydd nad oedd eu cyllidebau'n adlewyrchu hyn. Roedd Timau Troseddwyr Ifanc 'cartref' (wedi eu lleoli yn yr awdurdod lleol a oedd yn gosod y plentyn neu berson ifanc) yn parhau i fod â chyfrifoldeb am rai meysydd o waith ac roedd ansawdd y trefniant hwn yn cael effaith sylweddol.

Ac eithrio gweithwyr allweddol preswyl, y gweithwr Tîm Troseddwyr Ifanc lletyol oedd yn aml y person a oedd yn cael fwyaf o gyswllt â'r plentyn neu berson ifanc. Fe welsom rywfaint o waith da ar y cyd rhwng Timau Troseddwyr Ifanc gan gynnwys dyrannu di-oed, rhannu gwybodaeth yn dda, dyrannu rolau'n synhwyrol ac ymyriadau sensitif a dychmygus. Adlewyrchwyd hyn ym marnau'r plant a'r bobl ifanc y siaradasom â hwy, a oedd, bron i gyd, yn gadarnhaol iawn ynghylch eu cyswllt â gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc lletyol.

Ar y llaw arall, gwelsom hefyd rywfaint o ddyblygu, rhywfaint o hepgor ac effaith o ganlyniad i hynny ar y gwasanaeth i'r plentyn neu berson ifanc. Roedd Timau Troseddwyr Ifanc lletyol weithiau'n cael eu gadael i lawr gan wybodaeth hwyr, anghywir neu annigonol gan y Tîm

Troseddwyr Ifanc cartref. Yn y senario gwaethaf, golygai hyn nad oedd y risg o niwed i eraill (plant a phobl ifanc yn y cartref plant a/neu staff) yn cael ei reoli ac nad oedd breguster yn cael ei gydnabod. Lle digwyddai hyn, roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc lletyol mewn sefyllfa anodd. Petaent yn gwrthod cychwyn gweithio hyd nes oedd ganddynt yr wybodaeth briodol, gallai risg a breguster beidio â chael ei reoli, na'r gorchymyn llys ei gyflawni. Petaent yn cychwyn gweithio, heb y ffeithiau llawn, gellid colli risg neu fresguster. Roedd y naill ffordd neu'r llall yn annerbyniol ac yn ein barn ni, yn ddianghenraid.

Problem gyffredin, trwy'r asesiadau a welsom (gan y Timau Troseddwyr Ifanc cartref a lletyol fel ei gilydd), oedd yr hyn a ymddangosai fel diffyg dealltwriaeth o effaith bod mewn gofal. Gwelsom lawer o wybodaeth ynghylch amgylchiadau dod i ofal, ynghylch lleoliadau ac ynghylch ymddygiad. Fodd bynnag, nid oedd fawr ddim archwilio, dadansoddi na hyd yn oed gydnabod yr effaith ar les emosiynol plentyn neu berson ifanc na meddwl beth oedd angen ei wneud ynglŷn â hyn. Lle'r oedd hyn yn cael ei ddeall, gwelsom weithwyr Timau Troseddwyr Ifanc yn gwneud ymdrech i drafod gyda phlant a phobl ifanc, i eiriol ar eu rhan a chydnabod bod angen rhoi ystyriaeth i'w profiadau wrth ryngweithio â hwy o ddydd i ddydd.

Nid oedd gwaith Timau Troseddwyr Ifanc yn cael eu ddeall, ei barchu na'i werthfawrogi'n llawn bob amser gan staff mewn asiantaethau eraill. Mewn rhai achosion, golygai hyn nad oedd y sylw dyledus yn cael ei roi i ymddygiad troseddol gan adael rhai plant a phobl ifanc, rhai staff preswyl a rhai o'r cyhoedd ehangach heb gael eu diogelu cymaint ag y gallent.

### Gweithio gyda'i gilydd

Ar lefel awdurdod lleol roedd yn rhaid i uwch reolwyr sicrhau eu bod wedi cyflawni eu dyletswydd tuag at blant a phobl ifanc a leolwyd y tu allan i'w hardal a darparu ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd wedi cael eu lleoli yn eu hardal eu hunain gan awdurdodau lleol eraill. Canfuom fod hyn yn creu pwysau ar adnoddau i awdurdodau gyda nifer sylweddol o gartrefi plant yn eu hardaloedd. Yn ogystal, roedd diffyg gwybodaeth yn aml ynghylch darpariaeth breswyl a'r nifer o blant a phobl ifanc a oedd wedi cael eu gosod mewn cartref plant gan awdurdodau lleol eraill. Canfuom fod rhai awdurdodau lleol wedi gosod plant a phobl ifanc mewn sefydliadau a oedd wedi cael eu barnu'n anaddas gan yr awdurdod lleol lle'r oedd y cartref wedi'i leoli ynddo.

Roedd nifer bach o blant a phobl ifanc wedi eu lleoli mewn unedau therapiwtig arbenigol, megis y rheini a oedd yn mynd i'r afael ag ymddygiad rhywiol niweidiol. Nid oedd Timau Troseddwyr Ifanc a staff eraill yn gweithio gyda'r plant a'r bobl ifanc hyn bob amser yn gallu cael, nac yn ceisio, gwybodaeth fanwl am gynnwys, ansawdd ac effeithiolrwydd yr ymyriadau a gynigir yn yr unedau hyn.

Roedd y gymysgedd o blant a phobl ifanc o wahanol awdurdodau lleol mewn cartrefi plant yn fater o bryder, er enghraifft, gosod pobl ifanc a oedd wedi cyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol yn yr un uned â dioddefwyr camdriniaeth rhywiol. Roedd y penderfyniad ynghylch pa blant a phobl ifanc a allai fyw gyda'i gilydd yn cael ei wneud yn gyffredinol gan ddarparwr y lleoliad; yn aml roedd awdurdodau lleol heb fod yn ymwybodol o nodweddion y trigolion eraill.

Mae'r nifer o wahanol staff sy'n ymwneud â phob plentyn neu berson ifanc yn golygu ei bod yn hanfodol gweithio'n effeithiol ar y cyd, yn enwedig pan symudir hwy o amgylch y wlad. Canfuom lawer o waith caled ac ymroddiad gan unigolion ymysg yr amrywiol weithwyr proffesiynol a rheolwyr sy'n gweithio gyda'r plant a'r bobl ifanc hyn a chanfuom enghreifftiau o weithio ar y gyd a oedd wedi cyflawni buddion a gwell canlyniadau.

Ychydig o gynllunio tymor hirach a welsom a gormod o benderfyniadau adweithiol. Yn yr amgylchiadau hyn, roeddem wedi cael ein synnu na welsom fwy o herio gan Swyddogion Adolygu Annibynnol. Eu gwaith hwy yw asesu ansawdd ac effeithiolrwydd cynllunio a chymorth gan awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae ganddynt ran allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau fel 'rhiant corfforaethol'.

Roedd pob asiantaeth yn tueddu i ddilyn ei gweithdrefnau ei hun a gweithio i'w chylch gwaith ei hun. Gwelsom nifer o achosion lle'r oedd nifer sylweddol o asesiadau wedi bod gan wahanol ddisgyblaethau, heb fod pob un ohonynt yn angenrheidiol yn ein barn ni ac yn aml yn gwrth-ddweud ei gilydd, gan arwain at ddim neu fawr ddim gweithredu na newid.

Yn aml nid oedd gweithio ar y cyd yn ddim mwy na rhannu gwybodaeth, yn aml o fewn lleoliadau cyfarfodydd ffurfiol gydag un asiantaeth yn tra arglwyddiaethu, gan ddibynnu ar y fforwm.

Roedd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn cael y flaenoriaeth yn gyffredinol yn yr hierarchiaeth gwneud penderfyniadau ac nid oeddent bob amser yn rhoi ystyriaeth i asesaiadau a chynlluniau asiantaethau eraill. Roeddem yn siomedig nad oedd Swyddogion Adolygu Annibynnol yn chwarae rhan ragweithiol mewn sicrhau bod pob asiantaeth yn gweithio gyda'i gilydd ac yn gosod y plentyn neu berson ifanc yng nghanol yr ymdrech honno.

## Casgliad

Mae'r grŵp penodol iawn hwn o blant a phobl ifanc ymysg y rhai mwyaf drylliedig yn y system gofal. Erbyn yr amser y maent wedi cael eu lleoli y tu allan i'w hardal mae'n debygol y bydd y mwyafrif wedi cael nifer o leoliadau sydd wedi methu. Maent yn fregus ac, mewn rhai achosion, â'r potensial o fod yn beryglus. Mae arnynt angen amddiffyniad a gwaith i'w helpu hwy roi'r gorau i droseddu. Ar yr un pryd, gall fod angen i eraill gael eu diogelu rhagddynt. Mae gwaith i'w cynnwys, eu helpu a'u cefnogi hwy'n anodd ac fe'i gwneir yn sylweddol anoddach pan symudir hwy o gwmpas. Er bod llawer o ymroddiad a gwaith caled tuag atynt gan staff Timau Troseddwyr Ifanc ac eraill, nid yw asiantaethau bob amser yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd er budd gorau'r plentyn neu berson ifanc. Er gwaethaf dyrannu adnoddau sylweddol, gwael yw eu canlyniadau cychwynnol a thymor hirach.

## Argymhellion

*Dylai'r Adran Addysg sicrhau bod:*

- y rheoliadau sy'n llywodraethu lleoliad plentyn neu berson ifanc y tu allan i ardal eu hawdurdod lleol yn cael eu cryfhau fel bod:
  - pob lleoliad plentyn neu berson ifanc y tu allan i ardal eu hawdurdod lleol yn cael ei awdurdodi gan uwch-swyddog penodol, a'r rhesymau dros y lleoliad yn cael eu cofnodi'n glir yng nghofnod yr achos;
  - pan bo lleoliadau o'r fath yn digwydd, yr ymgynghorir ag asiantaethau perthnasol yn yr ardal dderbyn am y lleoliad tebygol ac yr hysbysir hwy cyn i'r lleoli ddigwydd pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl.

*Dylai awdurdodau lleol sicrhau:*

- bod Swyddogion Adolygu Annibynnol yn sicrhau bod yr holl asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i wella canlyniadau diogelu i blant a phobl ifanc ac yn rhannu gwybodaeth briodol, yn rhoi ystyriaeth i asesiadau ei gilydd, cysoni cynlluniau ar gyfer eu dyfodol hirdymor ac yn datblygu trefniadau wrth gefn lle bo hynny'n angenrheidiol;
- eu bod yn eu bodloni eu hunain bod ymyriadau therapiwtig arbenigol a ddarperir gan leoliadau preswyl o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion plant a phobl ifanc.

*Dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant sicrhau bod:*

- data yn cael ei gasglu, ei archwilio a bod asiantaethau'n cael eu dal yn atebol am wella canlyniadau diogelu i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'u gosod y tu allan i ardaloedd eu cartrefi.

*Dylai Rheolwyr Timau Troseddwyr Ifanc sicrhau bod:*

- gwybodaeth gywir am blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'u gosod y tu allan i ardaloedd eu cartrefi'n cael ei anfon yn ddi-oed at y Tîm Troseddwyr Ifanc yn yr ardal newydd;
- asesiadau, cynlluniau ymyrryd ac adolygiadau ar blant a phobl ifanc yn rhoi ystyriaeth lawn i effaith derbyn gofal;
- y broses orfodi ar gyfer gorchmynion llys a thrwyddedau ôl-garchar yn sensitif i amgylchiadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac yn ystyriol ohonynt;
- camau'n cael eu cymryd, lle bo'n briodol, i gynyddu'r nifer o blant a phobl ifanc yr ymdrinir â hwy trwy fesurau cyfiawnder adferol pan droseddant o fewn y lleoliad preswyl.

# 1. Cwmpas a Diben

**Crynodeb**

Mae'r bennod hon yn amlinellu strwythur a methodoleg yr arolygiad. Mae hefyd yn rhoi crynodeb o broffiliau'r achosion a arolygasom.

*Ffeithiau allweddol*

- Roedd dau draean o'r plant a phobl ifanc yn y sampl yn fechgyn rhwng 15 a 17 oed.
- Roedd pawb ond un yn byw mewn cartrefi plant preifat neu'n annibynnol.

## Cefndir

1.1. Cytunwyd ar yr arolygiad hwn gan y Grŵp Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, fel rhan o *Gynllun Busnes Arolygiadau ar y Cyd 2010-2012*. Ei gylch gorchwyl oedd:

- asesu effeithiolrwydd gwaith Timau Troseddwyr Ifanc gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, sy'n destun goruchwyliaeth yn y gymuned ac wedi eu lleoli draw oddi wrth ardal eu cartref:
  - wrth hyrwyddo eu hadsefydlu,
  - wrth gynnal eu cysylltiadau â'u teulu ac ardal eu cartref (lle bo hynny'n briodol);
- adnabod rhwystrau i waith effeithiol gan Dimau Troseddwyr Ifanc gyda'r grŵp hwn.

1.2. Nid oes dim neu fawr ddim data canlyniadau cenedlaethol na lleol sy'n ymwneud yn benodol â phlant a phobl ifanc mewn gofal, sydd hefyd yn cael eu lleoli y tu allan i ardal awdurdod lleol eu cartrefi, sydd wedi troseddu ac sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau troseddwyr ifanc. Roedd yr arolygiad rheolaidd o waith Timau Troseddwyr Ifanc o dan arweiniad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi'n awgrymu bod y grŵp penodol hwn o blant a phobl ifanc yn ymddangos fel petaent yn dioddef canlyniadau neilltuol o wael, yn cael eu hachosi neu eu dwysàu'n aml gan y pellter oddi cartref a diffyg gweithio cydgysylltiedig gan yr asianaethau sy'n ymwneud â hwy.

## Methodoleg

1.3. Cafodd yr arolygiad ei arwain gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, gyda chymorth gan Ofsted ac Estyn. Cafodd set o feini prawf, o dan arweiniad dogfen gwmpasu, ei dyfeisio ar gyfer yr arolygiad ar sail y polisi a'r canllawiau presennol sy'n berthnasol i'r sefydliadau a gafodd eu harolygu. Roedd meini prawf yr arolygiad yn cynnwys:

- arweiniad a threfniadau partneriaethau,
- asesu, cynllunio a gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Cafodd dull asesu achosion ei ddatblygu, ei dreialu a'i ddiwygio cyn yr arolygiad.

1.4. Er mwyn asesu polisi ac arferion yn erbyn y meini prawf, ymwelasom â chwe lleoliad: Blackpool; Halton a Warrington; Sir Amwythig, Telford a Wrekin; Gwlad yr Haf; Gorllewin Llundain a Wrecsam. Cafodd y safleoedd eu dewis ar sail y nifer o gartrefi plant yn yr ardal. Roedd gan bump o'r rhain gryn nifer o blant a phobl ifanc a oedd wedi cael eu gosod yn yr ardal gan awdurdodau lleol o'r tu allan. Roedd y chweched, yn Llundain, ag ychydig iawn o blant a phobl ifanc wedi eu gosod yno o'r tu allan i'r ardal. Cyflawnwyd y gwaith maes rhwng Ionawr a Mawrth 2012.

1.5. Ym mhob lleoliad gofynasom i'r Tîm Troseddwyr Ifanc ddewis, lle bo'n bosibl, ddeg o achosion, pump yr oeddent yn eu goruchwylio ar ran awdurdodau lleol eraill a phump o'u hachosion eu hunain a oedd yn cael eu goruchwylio gan Dimau Troseddwyr Ifanc eraill. Cafodd y data ei ategu gan wybodaeth a gasglwyd gan nifer o Dimau Troseddwyr Ifanc nad oedd yn rhan o'r prif waith maes.

1.6. Roedd y 60 o blant a phobl ifanc yn ein sampl:

- yn fechgyn yn bennaf (42 allan o 60),
- rhwng 11 a 18 oed, y mwyafrif (67%) rhwng 15 a 17 oed,
- yn byw mewn naill ai gartrefi plant neu'n annibynnol (gydag un eithriad),
- o dan naill ai orchymyn gofal llawn neu interim (43%) neu mewn gofal gwirfoddol (57%),
- yn bennaf yn Brydeinwyr gwyn (78%); roedd 8% pellach wedi eu dosbarthu fel du, neu ddu Prydeinig,
- â thros hanner ohonynt wedi cael eu cofnodi fel rai a oedd wedi troseddu o fewn yr amgylchedd gofal ac roedd 11 o blant a phobl ifanc wedi bod yn ddioddefwyr eu hunain.

1.7. Darllenasom gofnodion achosion a chyfwelasom â rheolwyr achosion Timau Troseddwyr Ifanc, gweithwyr cymdeithasol a staff eraill a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn neu berson ifanc. Roedd y rhain yn cynnwys staff lleoli, gweithwyr allanol Timau Troseddwyr Ifanc, staff CAMHS, Swyddogion Adolygu Annibynnol ac eraill. Cyfarfuom â rheolwyr ac uwch-reolwyr o wasanaethau gofal cymdeithasol plant a siaradasom gydag phlant a phobl ifanc. Ceisiasom hefyd safbwyntiau swyddogion cenedlaethol o sefydliadau statudol a gwirfoddol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac o fewn y system gyfiawnder troseddol.

# 2. Canlyniadau

**Crynodeb**

Mae'r bennod hon yn disgrifio sut mae'r canlyniadau cychwynnol ar gyfer y grŵp hwn o blant a phobl ifanc yn wael a bod hyn yn debygol o effeithio'n niweidiol ar eu rhagolygon yn y dyfodol. Mae'n cynnig sylwadau ar gyfiawnder troseddol, diogelu, addysg a phontio.

*Canfyddiadau allweddol:*

- Roedd dros hanner y plant a'r bobl ifanc wedi troseddu o fewn yr amgylchedd gofal ac roedd cyfran debyg wedi troseddu tra oeddent o dan oruchwyliaeth.
- Nid oedd plant a phobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y tu allan i'w hardal yn cael eu diogelu'n ddigonol bob amser.
- Roedd dros draean o'r plant a'r bobl ifanc yn y sampl wedi cael eu lleoli fwy na 100 milltir oddi cartref.
- Roedd canlyniadau addysg yn siomedig.
- Mae'r tarfu a achosir gan symudiadau aml yn amharu ar bontio'n llwyddiannus at fod yn oedolion.

## Cyd-destun

2.1. Mae'n hysbys fod canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn waeth nag i'r boblogaeth gyffredinol. Mae'r rhai sy'n gadael gofal yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y system garcharau[1] a'r boblogaeth ddigartref[2], maent yn tueddu i fod â lefelau is o gyfranogiad a chyflawniad addysgol[3] ac maent â risg uwch o broblemau iechyd meddwl[4]. Mae ffactorau risg sy'n cyfrannu at droseddau ieuentid yn cyd-ddigwydd mewn llawer o achosion â ffactorau a brofir gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Os nad yw plant a phobl ifanc mewn gofal yn cael lleoliadau sefydlog a chymorth proffesiynol addas, maent mewn risg o droseddu[5].

2.2. Wrth leoli plant a phobl ifanc, mae rheoliadau'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, ganiatáu i'r plentyn neu berson ifanc fyw ger eu cartref, o fewn ardal yr awdurdod lleol, i beidio â tharfu ar eu haddysg a rhoi ystyriaeth i ddymuniadau'r plentyn neu berson ifanc. Mae'n ofynnol iddynt hefyd ddarparu llety digonol o fewn ardal yr awdurdod i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, eto daeth data'r Adran Addysg (yn Llundain) 2011[6] i'r casgliad fod:

- deg awdurdod lleol heb unrhyw gartrefi plant yn eu hardal,
- 29% o blant a phobl ifanc a oedd yn derbyn gofal mewn cartrefi plant yn byw y tu allan i'w hawdurdod lleol eu hunain a thros 20 milltir o'u cartref,
- 40 o awdurdodau lleol heb ddim digon o leoedd cartrefi plant yn eu hardal i ddiwallu eu hangen am leoedd,

- cyfanswm o 22 o awdurdodau lleol â lle dros ben yn y cartrefi plant yr oeddent yn eu darparu, ond eto'n gosod plant y tu allan i'w hardal,
- 91% o blant a osodwyd y tu allan i'r awdurdod lleol mewn darpariaeth breifat neu wirfoddol,
- 71% o blant a osodwyd y tu mewn i ffin yr awdurdod lleol mewn darpariaeth awdurdod lleol,
- uchafswm y nifer o gartrefi plant mewn un awdurdod lleol yn 93 tra bod eraill heb ddim un.

### Canlyniadau cyfiawnder troseddol

2.3. Roedd canlyniadau cychwynnol cyfiawnder troseddol i'r plant a'r bobl ifanc yn y sampl o achosion yn siomedig. O'r 60 o achosion a arolygasom:

- roedd cyfanswm o 31 o blant a phobl ifanc wedi troseddu o fewn yr amgylchedd gofal,
- roedd tystiolaeth o aildroseddu yn ystod y cyfnod o oruchwyliaeth Tîm Troseddwyr Ifanc mewn 27 o achosion,
- roedd deg a blant a phobl ifanc wedi niweidio trigolion eraill,
- mewn 34 o achosion roedd y plentyn neu berson ifanc heb gydymffurfio â dedfryd y llys,
- nid oedd cynnydd digonol wedi cael ei wneud ar y ffactorau a gafodd eu hasesu fel rhai cysylltiedig â throseddu mewn 14 o achosion,
- gyda phedwar yn unig a blant a phobl ifanc y rhoddwyd cynnig ar gyfiawnder adferol.

2.4. Mae canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)[7] yn pennu na ddylai achos cyfiawnder troseddol gael ei ystyried fel ymateb awtomatig i ymddygiad troseddol gan blentyn sy'n derbyn gofal ac mae monitro canlyniadau troseddu o fewn cartrefi plant yn rhan o gyfundrefn arolygu Ofsted ar gyfer sefydliadau preswyl plant. Er gwaethaf hyn, consensws y farn ymysg ymarferwyr oedd fod, mewn rhai enghreifftiau, y camau gan yr heddlu a'r ymddangosiadau mewn llys yn cael eu defnyddio fel ffordd o orfodi disgyblaeth mewn ymgais i reoli ymddygiad o fewn lleoliad preswyl. Mae'r canlyniad – cofnod droseddol – yn cael effaith barhaol ar gyfleoedd bywyd unigolyn, ar y gwaethaf yn cynyddu'r posibilrwydd y byddant yn treulio rhywfaint o amser mewn amgylchedd o dan glo gyda phopeth sy'n gysylltiedig â hynny, ac ar y gorau, yn difrodi rhagolygon cyflogaeth. Yn un o'r ardaloedd yr ymwelasom â hwy, roedd cadeirydd panel ieuenctid yr ynadon wedi ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Lloegr i godi'r mater hwn ac i ddangos bod y pryderon hyn yn cael eu mynegi'n barhaus gan Gymdeithas yr Ynadon.

2.5. Dywedodd ynadon wrthym hefyd fod penderfyniadau remandio a dedfrydu'n cael eu gwneud yn anoddach oherwydd mai anaml iawn y byddai'r oedolyn a oedd gyda'r plentyn neu berson ifanc yn y llys yn weithiwr cymdeithasol iddynt na hyd yn oed yn rhywun a oedd yn eu hadnabod yn dda. Dywedodd staff Timau Troseddwyr Ifanc wrthym fod hyn yn cael effaith niweidiol ar y penderfyniadau a wnaed yn y llys, gan wneud y defnydd o garcharu'n fwy anodd ei osgoi. Mewn un achos a welsom, roedd

un person ifanc a oedd yn wynebu cyhuddiadau o ymosod ar staff gofal wedi dod i'r llys yng nghwmni aelod o staff yr oedd hi wedi ymosod arni'n flaenorol.

**Enghraifft o achos: troseddoli**

Roedd Sadie yn 15 oed a chafodd ei chymryd i ofal yn 2005 fel dioddefwr camdriniaeth rhywiol. Pan ddaeth i ofal nid oedd ganddi unrhyw hanes o ymddygiad troseddol. Ei throsedd (y gyntaf a'r unig un) oedd dwyn gliniadur a ffôn symudol gan breswylydd arall yn y cartref plant. Nid oedd unrhyw ymgais wedi'i gofnodi o ddull cyfiawnder adferol a chafodd Sadie ei chyhuddo o fwrgleriaeth a'i chollfarnu.

Dywedodd un dyn ifanc wrthym:

"*Pan oeddwn i'n 13 oed cefais fy ngosod gyda phlant llawer hŷn mewn cartref gofal. Dechreuais droseddu bryd hynny gan fod yn rhaid imi gydymffurfio. Ni allwn ddweud na. Cefais flas ar hynny.*"

### Canlyniadau diogelu

2.6. Er mai'r peth lleiaf un y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol oedd bod plant a phobl ifanc mewn gofal yn cael eu diogelu, nid oedd hyn yn wir bob amser. Mewn dau draean o'r achosion a arolygasom, barnasom nad oedd y plentyn neu berson ifanc wedi cael eu diogelu'n ddigonol. Roedd hyn i raddau helaeth oherwydd asesiad a/neu gynllunio annigonol. Nid oes unrhyw ddata cenedlaethol i ddangos faint o blant a phobl ifanc sydd wedi bod yn ddioddefwyr eu hunain o fewn cartrefi plant neu sydd wedi anafu trigolion eraill neu staff, fodd bynnag dangosodd canfyddiadau ein harolygiad nad oedd hyn yn ddigwyddiad prin.

2.7. Dangosodd ein canfyddiadau fod y canlyniadau diogelu cychwynnol i blant a phobl ifanc yn y sampl achosion yn peri pryder:

- mewn un achos o bob pump roedd plant a phobl ifanc eu hunain wedi bod yn ddioddefwyr trosedd tra oeddent o dan oruchwyliaeth y Tîm Troseddwyr Ifanc,
- llai na'u hanner oedd wedi cael eu hanghenion emosiynol neu iechyd meddwl wedi eu diwallu,
- roedd dros dri chwarter wedi cael mwy nag un lleoliad yn ystod y cyfnod o oruchwyliaeth Tîm Troseddwyr Ifanc ac roedd bron i ddau draean wedi cael eu lleoli fwy na 50 milltir oddi wrth eu cartref gyda thraean fwy na 100 milltir i ffwrdd heb esboniad clir mewn llawer achos pam y cymerwyd y camau hyn.

Ni ellir dal pob methiant diogelu gan ystadegau.

**Enghraifft o achos: diogelu**

Merch dair ar ddeg oed oedd Alice a oedd wedi cael ei chymryd i ofal oherwydd camfanteisio rhywiol. Nid oedd ganddi fawr o gysylltiad â'i mam a oedd wedi symud dramor ac roedd hi wedi byw gyda'i thad. Roedd hi'n defnyddio cyffuriau ac wedi hunan-niweidio'n barhaus a rhedeg i ffwrdd. Yn y cartref plant, cafwyd hyd i fachgen 15 oed yn cael cyfathrach rywiol â hi yn ei hystafell a chafwyd hyd i fideos rhywiol ohoni ar ei ffôn symudol ef.

Dywedodd un eneth 16 oed wrthym:

*"Nid oes neb yn poeni o ddifrif amdanaf. Maent yn cael eu talu i ofalu ond nid ydynt yn gwneud hynny mewn gwirionedd. Petaent yn gwneud, fe fyddent yn rhoi'r gorau i'm symud i o gwmpas ac yn fy neall i yn lle siarad am beth yw fy anghenion."*

2.8. Dywedodd yr heddlu a gweithwyr proffesiynol eraill wrthym fod plant a phobl ifanc a oedd yn gael eu lleoli'r tu allan i ardal eu cartref yn aml yn rhedeg i ffwrdd o leoliadau ac yn dod yn unigolion coll, gyda'r holl risgiau iddynt yr oedd hynny'n ei olygu. Yn anffodus, nid oedd data ffurfiol i gadarnhau hyn yn cael ei gasglu at ei gilydd gan asiantaethau.

Cymro oedd Stan ac roedd wedi bod mewn gofal ers ei fod yn bedair oed gan fod ei ddau riant â chaethiwed hirdymor i heroin. Roedd wedi treulio'r rhan fwyaf o'i amser mewn gofal yng Nghymru, gan fyw'n ddigon agos i'w fam i'w alluogi i gael perthynas â hi, rhywbeth yr oedd yn ei werthfawrogi. Pan gafodd ei symud i Loegr ac yn rhy bell i ffwrdd i hyn barhau, adroddwyd ei fod ar goll 37 o weithiau mewn cyfnod o bedwar mis.

### Canlyniadau addysg

2.9. Roedd addysg yn gyffredinol yn cael ei drefnu gan y lleoliad preswyl, boed hynny'n diwtora gartref o fewn y cartref plant, yn allanol mewn 'ysgol' a ddarparwyd gan y sefydliad neu trwy ddarpariaeth addysg yr awdurdod lleol lletyol.

2.10. Roedd canlyniadau addysg cychwynnol y plant a'r bobl ifanc yn y sampl o achosion yn wael, ac roeddem o'r farn fod addysg bron i hanner y plant yn sampl ein harolygiad wedi cael ei effeithio'n negyddol o ganlyniad i'w hamgylchiadau.

2.11. Effeithiwyd ar y gallu i setlo i addysg pan oedd plant a phobl ifanc yn cael eu symud. Roedd swm sylweddol o'r addysg yn seiliedig ar weithgareddau ac ychydig iawn a welsom o adroddiadau o gwricwlwm yn cynnwys TGAU a dim un yn cynnwys lefelau A. Roedd hyn yn cael effaith negyddol tymor hirach ar ragolygon am gyflogaeth. Mewn 46% o'r achosion a arolygwyd, nid oedd Timau Troseddwyr Ifanc a gweithwyr addysg wedi gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Roedd gallu staff addysg Timau Troseddwyr Ifanc i chwarae rhan yn gyfyngedig, gan fod addysg yn gyffredinol yn cael ei ddarparu gan y lleoliad ac nid trwy'r awdurdod lleol.

2.12. Fe welsom un enghraifft o waith i geisio cynnal darpariaeth addysgol a chyfyngu ar darfu:

**Enghraifft o arfer dda: addysg**

Cafodd Katie ei symud i **Sir Amwythig, Telford a Wrekin**, ymhell o'i hysgol a oedd mewn awdurdod lleol arall. Roedd hi'n dymuno aros yn yr ysgol ac roedd ei chynllun gofal yn adlewyrchu hynny. Fe wnaeth staff y cartref plant hwyluso ei phresenoldeb trwy ei chludo hi bob dydd. Roedd hi'n gwneud yn dda o safbwynt presenoldeb ac ymddygiad.

### Annibyniaeth

2.13. Ni chanfuasom unrhyw achosion gyda chynlluniau tymor hirach gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant ar gyfer bywydau'r plant a'r bobl ifanc yn y dyfodol. Ni

welsom fawr ddim tystiolaeth o unrhyw symudiad llwyddiannus ar fyw'n annibynnol yn yr achosion a arolygasom er bod eu hanner yn 16 oed a throsodd. Yn lle hynny, gwelsom rai plant a phobl ifanc wedi eu gosod mewn llety arbenigol â chymorth, rhai mewn llety gwely a brecwast a rhai mewn hostelau. Roedd y rhain yn aml yn lleoliadau nad oedd yn cael eu rheoleiddio ac nad oedd yn cynnig fawr o ddiogelu. Roedd rhai wedi penderfynu mynd yn ôl i fyw gyda theuluoedd yr oeddent wedi cael eu symud oddi wrthynt sawl blwyddyn ynghynt. Roedd rhai yn symud o gwmpas rhai o'u cydnabod. Roedd y paratoi a'r cymorth a oedd ar gael gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant yn annigonol yn y mwyafrif o achosion.

2.14. Yn yr un modd, ychydig iawn o dystiolaeth oedd o unrhyw symudiad llwyddiannus i fyd gwaith, llawer llai i addysg bellach. Ychydig o gysylltiadau cryf oedd ganddynt â'r ardal ddaearyddol a dim ffrindiau hirdymor na chysylltiadau ag unrhyw grwpiau na chlybiau lleol. Roedd yr ynysu o ganlyniad i hynny'n golygu eu bod yn fwy tebygol o dueddu at grŵp o gyfoedion a oedd yn atgyfnerthu agweddau negyddol eu bywydau.

Cymerwyd Neil i ofal pan oedd yn chwech oed. Yn 14 oed collodd ei leoliad trwy droseddu o fewn y cartref plant. Dros y tair blynedd nesaf cafodd ei symud 20 o weithiau; weithiau yn ôl i leoliadau yr oedd wedi bod ynddynt o'r blaen. Yn 17 oed, roedd yn dad i blentyn ac roedd eisoes wedi cael eu gollfarnu am un drosedd dreisgar yn erbyn ei bartner. Roedd yn defnyddio cocên ac mewn dyledion ariannol i ddelwyr cyffuriau. Roedd yn byw mewn llety annibynnol â chymorth a oedd hefyd yn cartrefu defnyddwyr cyffuriau eraill. Nid oedd ganddo unrhyw ffrindiau ac roedd wedi'i ynysu ac yn unig.

### Sut deimlad ydyw?

2.15. Mae data canlyniadau cyffredinol ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, fel sy'n wir am ystadegau cyffredinol troseddau ieuenctid. Fodd bynnag, nid oes dim, neu fawr ddim, data canlyniadau cenedlaethol na lleol sy'n ymwneud yn benodol â'r rheini sydd wedi cael eu gosod y tu allan i awdurdod lleol eu cartref ar ryw adeg neu'i gilydd. O'r achosion a arolygasom, yr arwyddion oedd fod y canlyniadau'n wael iawn ac yn debygol o fod yn waeth nag i'r grwpiau eraill o fewn y system darparu gofal.

2.16. Yr hyn sy'n llai mesuradwy yw'r trallod sy'n rhan annatod o'r holl ffactorau hyn. Mae hanesion unigol y plant a'r bobl ifanc hyn yn hynod o drist. Roeddent yn datgelu cyfleoedd a gollwyd, plentyndod drylliedig a bywydau a wastraffwyd. Y canlyniad oedd oedolion ifanc heb unrhyw deulu na chyfeillion agos, heb unrhyw deimlad o berthyn i unlle nac i unrhyw gymuned, heb fawr o obaith am ddyfodol llwyddiannus ac, i siarad yn blaen, y rhagolygon o fod yn faich hirdymor ar y systemau iechyd, lles a chyfiawnder troseddol.

Roedd Mia, merch 15 oed, wedi colli cysylltiad â'i theulu a'i ffrindiau i gyd o fewn ychydig fisoedd o gael ei chymryd i ofal. Yr unig berthnasoedd oedd ganddi oedd y rhai â gweithwyr proffesiynol. Roedd hi mor drallodus pan gafodd ei symud o un cartref plant i un arall fel y ceisiodd gerdded yn ôl i'r un cyntaf a oedd dros ddwyawr oddiyno.

Dywedodd un ferch ifanc wrthym iddi gyfrif 27 o weithwyr yn ei bywyd. Meddai un arall wrthym:

*"Rwyf wedi colli fy holl gysylltiadau â phobl. Rwyf wedi cael fy symud i dair ysgol wahanol ac wedi colli fy ffrindiau. Dydym ni ddim yn gwybod am beth i siarad gan fod ganddyn nhw bethau gwahanol yn digwydd."*

## Casgliad

Roedd y canlyniadau cychwynnol i'r grŵp o blant a phobl ifanc yn yr arolygiad hwn yn hynod o wael. Nid ydynt ychwaith yn debygol o gael eu dargyfeirio oddi wrth droseddu neu aildroseddu drwy fod mewn gofal. I'r rheini nad ydynt wedi troseddu o'r blaen, fe all fod yn cynyddu'r siawns o droseddoli. Gall rhai plant a phobl ifanc fod mewn perygl oddi wrth eraill y maent yn byw gyda hwy a rhoi eu hunain mewn perygl trwy redeg i ffwrdd yn aml. Er na all fod unrhyw sicrwydd y bydd bod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal yn sicrhau datblygiad diogel plentyn neu berson ifanc, ni ddylai'r potensial ar gyfer ei sicrhau gael ei beryglu trwy eu gosod ymhell o ardal eu cartref onibai bod lleoliad o'r fath yn angenrheidiol i'w lles yn y dyfodol. Mae addysg hefyd yn cael ei darfu, fel mae eu cysylltiadau â chymuned sy'n ei gwneud hi'n anoddach pontio at annibyniaeth yn y pen draw. Er nad oes unrhyw ddata hirdymor penodol i gadarnhau bod eu cyfleoedd mewn bywyd yn cael eu difrodi, ymddengys yn debygol iawn fod eu rhagolygon mor wael â'u canlyniadau cychwynnol.

# 3. Gwaith troseddau ieuenctid gyda phlant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal

**Crynodeb**

Mae’r adran hon yn disgrifio’r gwaith a gyflawnir gan Dimau Troseddwyr Ifanc cartref a rhai lletyol. Mae’n rhoi sylwadau ar drosglwyddo achosion rhwng Timau Troseddwyr Ifanc, ansawdd yr asesu, y cynllunio a’r ymyriadau a’r gwaith i osgoi troseddoli plant a phobl ifanc.

*Canfyddiadau allweddol*

- I’r Timau Troseddwyr Ifanc gyda chartrefi plant yn eu hardal roedd effaith sylweddol ar eu llwyth gwaith.
- Roedd Timau Troseddwyr Ifanc lletyol wedi datblygu systemau ar gyfer rheoli’r trosglwyddo achosion i’w hardal.
- Roedd yr oedi cyn bod Timau Troseddwyr Ifanc lletyol yn derbyn gwybodaeth gyfoes o ansawdd dda â’r potensial o amharu ar y gwasanaeth i blant a phobl ifanc, ar reoli’r risg o niwed yr oeddent yn ei achosi i eraill ac ar lwyddiant eu gorchmynion llys.
- Roedd gan Dimau Troseddwyr Ifanc lletyol lefelau da o gyswllt ac roeddent yn gweithio’n adeiladol gyda’r plant a’r bobl ifanc.
- Ychydig iawn o gydnabyddiaeth nac o ddealltwriaeth o effaith profiad bywyd nac amgylchiadau’r plentyn neu berson ifanc oedd o fewn prosesau asesu Timau Troseddwyr Ifanc.
- Nid oedd plant a phobl ifanc o fewn cartrefi plant yn cael eu dargyfeirio o’r system gyfiawnder troseddol trwy ddefnyddio cyfiawnder adferol.
- Roedd diffyg dealltwriaeth yn aml ynghylch rôl y Tîm Troseddwyr Ifanc gan asiantaethau eraill sy’n ymwneud â’r plentyn neu berson ifanc o dan oruchwyliaeth.

## Llwyth gwaith Timau Troseddwyr Ifanc

3.1. Mae’r gwaith o oruchwylio dedfrydau cymunedol a thrwyddedau ôl-garcharu i blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal a’u lleoli y tu allan i ardal eu catref yn disgyn yn gyffredinol ar y Tîm Troseddwyr Ifanc yn yr awdurdod lleol lle maent yn preswylio. Mae rhywfaint o’r gwaith yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Tîm Troseddwyr Ifanc yn yr awdurdod lleol sy’n lleoli’r plentyn neu berson ifanc, er enghraifft, mynychu adolygiadau gofal cymdeithasol plant a monitro cynnydd. Gan ddibynnu ar yr achos unigol, gall y Tîm Troseddwyr Ifanc cartref hefyd gynnal cysylltiad rheolaidd â rhieni/gofalwyr neu wneud ymweliadau â’r plentyn neu berson ifanc. Yn Lloegr, mae’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn cyflwyno canllawiau ar gyfrifoldebau Timau Troseddwyr Ifanc cartref a lletyol ac yn awgrymu’r broses ar gyfer rhannu gwybodaeth a gweithio ar y cyd.[8] (Nid yw’r canllawiau wedi cael eu mabwysiadu yng Nghymru eto.) Yn ymarferol, roedd Timau Troseddwyr Ifanc lletyol yn aml wedi datblygu eu prosesau eu hunain i geisio rheoli’r mewnlif o waith.

3.2. I rai Timau Troseddwyr Ifanc, nid yw gwaith gyda'r grŵp hwn o blant a phobl ifanc yn effeithio'n sylweddol ar eu llwyth gwaith. I eraill mae'n gyfran sylweddol o'u llwyth achosion. Ardal Gogledd Orllewin Lloegr oedd â'r nifer mwyaf yn Lloegr o gartrefi preifat a rhai'n cael eu rhedeg yn wirfoddol (375) fel yr oedd ar 30 Medi 2011, gyda Gorllewin Canolbarth Lloegr wedyn (257). Roedd gan ranbarthau eraill o Loegr ac ardaloedd penodol o Gymru hefyd niferoedd sylweddol o gartrefi plant preifat wedi'u lleoli yn eu hardal. Gall hyn effeithio ar yr holl wasanaethau lleol ond roedd yn neilltuol o anodd i wasanaethau llai fel Timau Troseddwyr Ifanc. Mae eu cyllid yn seiliedig ar eu poblogaeth leol felly roedd gan y cynnydd hwn mewn llwyth gwaith y potensial i effeithio ar eu gallu i gyflawni gwasanaethau o ansawdd da i bawb o'r plant a'r bobl ifanc yr oeddent yn gweithio gyda hwy, y rheini o'u hawdurdod lleol eu hunain a'r rheini o'r tu allan.

3.3. Roedd pump o'r chwech o Dimau Troseddwyr Ifanc yr ymwelasom â hwy o fewn ardaloedd gyda nifer sylweddol o gartrefi plant yn eu hardal. Roedd pob un ohonynt wedi datblygu prosesau i sicrhau eu bod yn cael digon o wybodaeth i weithio'n ddiogel ac yn gynhyrchiol gyda'r plentyn neu berson ifanc yn eu hardal. Roedd y rhain yn gyffredinol yn cael eu cyflawni gan reolwyr ac roedd yn anochel fod y prosesau hyn yn cymryd cryn amser. Yr hyn yr oedd rheolwyr yn ei ganfod yn hynod rwystredig oedd yr oriau ychwanegol, a *dianghenraid* yn eu barn nhw, o amser a oedd yn cael ei dreulio'n mynd ar ôl gwybodaeth a ddylai fod wedi dod yn awtomatig, er enghraifft asesiadau a chynlluniau cyfoes o ansawdd da.

3.4. Pan nad oedd gwybodaeth o ansawdd da'n cael ei ddarparu'n ddi-oed roedd yn gosod y Tîm Troseddwyr Ifanc lletyol mewn sefyllfa anodd. Petaent yn mynnu disgwyl am yr wybodaeth cyn cychwyn goruchwylio, ni fyddai'r plentyn neu berson ifanc yn cael gwasanaeth. Fodd bynnag, petaent yn cychwyn gweithio gyda hwy, roeddent yn gwnued hynny heb wybod pa risg yr oeddent yn ei achosi, pa mor fregus oeddent na pha waith yr oedd angen ei wneud. Roedd rhai Timau Troseddwyr Ifanc yn fwy llym na'i gilydd wrth fynnu bod gwybodaeth yn cael ei ddarparu cyn y gallai gwaith gychwyn. Roedd Timau Troseddwyr Ifanc eraill yn cychwyn gweithio gyda phlant a phobl ifanc wrth iddynt barhau i bwyso am wybodaeth. O fewn y sampl, roedd 38% o achosion heb gael eu dyrannu'n ddi-oed ac mewn traean o'r achosion hynny, y diffyg gwybodaeth o'r Tîm Troseddwyr Ifanc cartref oedd wedi peri gohirio mewn dyrannu.

3.5. Ar y cyfan, canfuom fod y Timau Troseddwyr Ifanc lletyol yr ymwelsom â hwy'n gweithio'n galed iawn i ddarparu gwasanaethau ond eu bod yn cael eu llesteirio pan nad oedd Timau Troseddwyr Ifanc cartref yn darparu gwybodaeth gyfoes. Nid oedd bob amser yn hawdd deall pam fod hyn yn digwydd ac roedd weithiau wedi achosi gwrthdaro rhwng y ddau Dîm Troseddwyr Ifanc.

## Asesu a chynllunio

3.6. Gwelsom rywfaint o gydgysylltu da rhwng Timau Troseddwyr Ifanc cartref a Thimau lletyol a dyrannu rolau synhwyrol rhwng gweithwyr er mwyn darparu gwasanaethau penodol.

**Enghraifft o arfer dda: asesu angen unigolyn**

Roedd gan Steve, dyn ifanc ar orchymyn cymunedol a oedd wedi ei leoli oddi cartref mewn cartref plant, anawsterau dysgu ac roedd yn gallu cysylltu'n well â gweithwyr gwrywaidd.

Fe wnaeth y Timau Troseddwyr Ifanc oedd yn ymwneud â'r goruchwylio – **Leeds** (cartref) a **Halton a Warrington** (lletyol) gyflawni adolygiad ar y cyd a chyfnewid eu rolau i ddiwallu anghenion Steve. Fe wnaeth swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc **Halton a Warrington** (dyn) gynnal y rhan fwyaf o'r cyfweliad wrth i swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc **Leeds** (menyw), a oedd yn gwblhau'r asesiad, gymryd nodiadau ac egluro pwyntiau lle bo hynny'n angenrheidiol. Roedd y dull cydgysylltiedig hwn yn rhoi sylw i'w anghenion unigol ac yn sicrhau bod y person ifanc yn gallu cymryd rhan yn y broses asesu.

3.7. Fodd bynnag, mewn mwy na hanner yr achosion a arolygasom, nid oedd y cysyllitad rhwng y Timau Troseddwyr Ifanc yn ddigonol cyn lleoli. Mewn bron i draean o achosion nid oedd y Tîm Troseddwyr Ifanc lletyol yn ymwybodol fod y plentyn neu berson ifanc yn yr ardal tan ar ôl iddynt symud. Yn anochel, roedd rhai o'r enghreifftiau hyn lle'r oedd y symud o ganlyniad i fethiant lleoliad, ac yn yr argyfyngau hyn, nid oedd y Tîm Troseddwyr Ifanc cartref yn cael eu hysbysu'n ddi-oed bob amser. Yr effaith gyffredinol fodd bynnag, oedd bod yr asesu a'r cynllunio'n aml yn is na'r safon ofynnol.

Roedd Cara, a oedd yn 13 oed, wedi bod i mewn ac allan o ofal ers sawl blwyddyn. Ei throseddau oedd llosgi bwriadol ac ymosod, ar ôl ceisio rhoi cartref plant ar dân ac anafu gweithiwr gofal yn ddifrifol. Nid oedd y Tîm Troseddwyr Ifanc lletyol yn gwybod bod Cara yn yr ardal tan bythefnos ar ôl iddi gyrraedd. Cymerodd dair wythnos i'r Tîm Troseddwyr Ifanc i gael asesiadau ac ni chafodd ei gweld tan hynny (bum wythnos ar ôl cyrraedd). Ni chafodd yr asesiadau o'r risg i drigolion eraill a staff eu darparu i'r lleoliad am o leiaf bythefnos ar ôl iddi gyrraedd. Roedd risgiau sylweddol i blant a phobol ifanc eraill a oedd yn byw yn y cartref plant gyda rhywun a oedd eisoes wedi ceisio rhoi un ar dân. Yn yr achos hwn roedd hefyd risgiau difrifol i weithwyr gofal; nas hysbyswyd i'r staff yn y cartref plant ac felly ni chafodd unrhyw gynlluniau nac amddiffyniadau penodol iddynt hwy na'r trigolion eraill eu rhoi ar waith.

3.8. Canfuasom hefyd ychydig o ddyblygu dianghenraid a ymddangosai fel petai'n ymwneud â phob Tîm Troseddwyr Ifanc yn dangos eu hunain yn cymryd rhan yn hytrach na gweithio effeithiol ar y cyd. Er enghraifft, mewn un achos, gwelsom asesiadau ar wahân o freguster gan y ddau Dîm Troseddwyr Ifanc a roddodd raddau gwahanol. Nid oedd hyn yn cael ei hwyluso gan anawster mewn trosglwyddo data o un cronfa ddata i'r llall – YOIS a Careworks. Dywedwyd wrthym hefyd fod data'n cael ei golli weithiau wrth drosglwyddo rhwng yr *un* cronfeydd data.

3.9. Canfuom mai cyfyngedig oedd y ddealltwriaeth o effaith profiadau bywyd y plentyn neu berson ifanc. Roedd rhai o asesiadau Asset yn fwy manwl na'i gilydd ac yn cynnwys rhifau, dyddiadau a mathau o leoliadau a'r rhesymau dros ddod i ofal. Roedd rhai'n cynnwys gwybodaeth ynghylch perthnasoedd teuluol. Ychydig iawn oedd yn cynnwys dadansoddiad dwfn o sut oedd dim o hyn yn effeithio ar y plentyn neu berson ifanc a'u hymddygiad. Prin y crybwyllwyd y golled, y tarfu, yr unigrwydd na'r tristwch ac eto roedd y mwyafrif o'r hanesion bywyd a ddarllenasom yn rhai trasig. Mewn rhai ffyrdd, dyma'r agwedd fwyaf siomedig o'n canfyddiadau – y ffordd ffwrdd-â-hi yr oedd rhai gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc fel petaent yn derbyn manylion

profiadau bywyd y plentyn neu berson ifanc heb unrhyw ddealltwriaeth amlwg o'r effaith a oedd yn parhau.

3.10. Nid oedd iechyd emosiynol a meddyliol yn cael ei asesu'n ddigon da mewn bron i ddau draean o'r achosion yn y sampl. Roedd hyn yn neilltuol o bryderus yn wyneb yr wybodaeth ynghylch rhagolygon iechyd meddwl hirdymor plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal; nid oedd ond wyth o achosion lle barnasom nad oedd hyn yn ffactor. Ymddangosai mai'r unig adegau'r oedd y mwyafrif o Dimau Troseddwyr Ifanc yn ystyried hyn yn broblem oedd os oedd diagnosis wedi bod o gyflwr iechyd meddwl, yn hytrach na deall effaith profiad bywyd y plentyn neu berson ifanc ar eu teimladau a'u hemosiynau.

3.11. Roedd diffyg trafod gweithredol rhwng Timau Troseddwyr Ifanc cartref a lletyol plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwr wrth asesu ac wrth gynllunio. Yn benodol, roedd bron i ddau draean o rieni/gofalwyr (a oedd yn dal i ymwneud â'u plant) heb gymryd rhan weithredol yn yr asesu. Roedd hanner y cynlluniau goruchwylio wedi cael eu llunio heb gyfraniad gweithredol plant neu bobl ifanc na'u rhieni/gofalwyr.

3.12. Daethom i'r farn nad oedd ffactorau amrywiaeth sy'n gysylltiedig â derbyn gofal wedi cael eu hadnabod mewn dros hanner o'r achosion yn y sampl. Roedd ymddygiad gwael, diffyg cymryd rhan neu herio ymddangosiadol yn aml yn cael eu trin yn arwynebol heb fawr o ddiddordeb yn cael ei ddangos nac ystyriaeth yn cael ei roi i gyflwr emosiynol y plentyn neu berson ifanc. Ychydig iawn o gynlluniau goruchwylio oedd hyd yn oed yn cyfeirio at yr agwedd hon o fywyd plentyn neu berson ifanc. Ni welsom ddim un a oedd yn rhoi ystyriaeth i'r cyfnod o setlo i mewn yn y lleoliad newydd er enghraifft. Mewn dros chwarter o'r achosion, nid oedd y cynllun gofal ar ffeil ac felly ni ellid ei integreiddio i gynlluniau'r Tîm Troseddwyr Ifanc. Roedd bywydau a phrofiadau'r plant a'r bobl ifanc hyn yn golygu bod unrhyw waith adeiladol i leihau aildroseddu'n annhebygol o gael llawer o effaith onibai fod gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc yn deall yn gyntaf, ac yn cydymdeimlo ac wedyn yn trafod mewn ffordd gall gyda'r plentyn neu berson ifanc.

## Ymyriadau

3.13. Er gwaethaf ein pryderon am rai agweddau o ansawdd asesu a chynllunio, daethom i'r farn fod Timau Troseddwyr Ifanc lletyol yn darparu gwasanaeth da i blant a phobl ifanc o safbwynt nifer o agweddau o weithredu.

3.14. Roedd cyflwyno rhaglen gyson o waith ymddygiad troseddol yn aml yn anodd oherwydd y tarfu ar fywyd plentyn neu berson ifanc. Er gwaethaf hyn cyflawnwyd ymweliadau pwrpasol â chartrefi plant mewn 83% o achosion. Roedd hyn yn gyffredinol er mwyn cyfarfod plant a phobl ifanc, er bod, mewn rhai achosion, gwaith ymddygiad troseddol yn cael ei gyflawni yno.

3.15. Roedd ymyriadau i reoli'r risg o niwed a achoswyd i eraill yn cael eu cyflwyno mewn bron i 80% o achosion gyda dros 90% o'r rheini'n cael eu hystyried i fod o ansawdd da ac wedi eu targedu at leihau aildroseddu. Roedd gwaith i ddiogelu'r plentyn neu berson ifanc hefyd yn cael ei gyflawni yn y mwyafrif llethol o achosion. Ar y cyfan, roedd ymyriadau'n rhoi ystyriaeth i ffactorau amrywiaeth. Roedd Timau Troseddwyr Ifanc lletyol yn neilltuol o dda am symblyu a chefnogi plant a phobl ifanc. Gwelsom rywfaint o waith dychmygus a oedd yn rhoi sylw i angen unigolyn. Er enghraifft, roedd un gweithiwr wedi cwblhau gwaith ar ddaearyddiaeth lleoliad y plentyn neu

berson ifanc fel bod ganddynt ryw syniad lle'r oeddent yn y wlad o gymharu â'u cartref.

3.16. Roedd gwasanaethau gan Dimau Troseddwyr Ifanc cartref yn llai cyson yn eu hansawdd. Mewn hanner yr achosion, nid oedd Timau Troseddwyr Ifanc cartref wedi cynnal ymweliadau pwrpasol nac wedi cefnogi'r plentyn neu berson ifanc yn ddigonol; roedd gwaith gyda rhieni/gofalwyr yn ddigonol mewn llai na'u hanner. Barnwyd bod y gwaith ar y cyd rhwng y Timau Troseddwyr Ifanc cartref a lletyol yn ddigonol mewn 47% yn unig.

3.17. Ar y cyfan, yn yr achosion yn y sampl, roedd asesiadau a chynlluniau cychwynnol yn cael eu hadolygu ar ysbeidiau priodol er bod dros draean o'r ddau o ansawdd annigonol. Cafodd cyfran debyg o'r adolygiadau o fresguster a'r risg o niwed i eraill hefyd eu barnu i fod yn annigonol. Roedd yr olaf yn bryder neilltuol yn wyneb amgylchiadau'r plant a'r bobl ifanc hyn.

3.18. Roedd y sylw a roddwyd i'r risg o niweidio eraill yn destun pryder; ni ragwelwyd newidiadau mewn ffactorau risg perthnasol ond mewn tua hanner yr achosion yn y sampl, a chymerwyd camau priodol yn yr un nifer. Nid oedd adolygiadau o risg o niwed yn cael eu cyflawni bob amser ar ôl newid sylweddol. O'r saith o achosion a oedd yn ymwneud â Threfniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd, nid oedd y gweithdrefnau'n cael eu defnyddio'n effeithiol mewn dau. Roedd rheolwyr achosion wedi rhoi sylw digonol i ddiogelwch dioddefwyr neu ddioddefwyr posibl mewn 60% yn unig o achosion. Drwy fod plant a phobl ifanc eraill yn byw gyda hwy ac mewn risg posibl, roedd hyn yn bryder neilltuol.

3.19. Roedd symudiadau mynych o un lleoliad i'r llall yn llesteirio'r gwaith o fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol a rheoli'r risg yr oedd plant a phobl ifanc yn ei achosi i eraill. Roedd hyn yn bryder neilltuol pan oedd risg i eraill o fewn y system breswyl ac i staff.

Roedd Joseph, bachgen 16 oed, wedi cael i gymryd i ofal yn sgil camdriniaeth corfforol ac wedi cael pum lleoliad ers 2010. Cafodd ei asesu fel rhywun oedd yn peri risg uchel o niweidio pobl eraill; fodd bynnag ni chafodd y Tîm Troseddwyr Ifanc lletyol eu hysbysu pan fu'n rhaid iddo gael ei symud oherwydd honiadau o dreisio gan un arall o drigolion y cartref plant. Roedd wedi cael ei symud i dŷ oedd yn cael ei rannu, gyda chymorth hyblyg ac nid oedd y Tîm Troseddwyr Ifanc cartref yn gwybod ei fod yno. Trwy ddamwain y darganfu'r Tîm Troseddwyr Ifanc lletyol ac o ganlyniad nid oedd cynlluniau ar waith i reoli'r risg yr oedd yn ei achosi i blant a phobl ifanc eraill yn y tŷ.

3.20. Efallai oherwydd asesiad gwael o'r effaith emosiynol, ychydig o gonsesiwn a welsom yn cael ei wneud i'r math o adeiladu perthynas oedd ei angen gyda phlant a phobl ifanc sydd oddi cartref ac wedi cael eu symud o gwmpas. Er enghraifft, fe welsom weithiau weithdrefnau gorfodi'n cael eu cyflawni'n ddi-hid, heb fawr o feddwl yn cael ei roi i sut y gallai'r broses o gynnal perthynas gyda phlentyn neu berson ifanc mewn gofal ac mor bell oddi cartref fod yn wahanol i'r rheini a ddefnyddid gyda rhywun yn byw gyda'u teulu ac o fewn eu hardaloedd eu hunain.

**Enghreifftiau o arferion da: gweithio gydag angen unigol**

Roedd Jenny, 13, yn canfod y nifer o bobl a oedd yn ymwneud â'i bywyd yn peri dryswch iddi. O fewn cyfnod byr roedd hi wedi byw mewn tri gwahanol gartref plant yn ardal ei chartref cyn cael ei symud i ffwrdd. Roedd hi'n cael rhwng pedwar a chwech o gysylltiadau'r wythnos gyda gwahanol weithwyr proffesiynol yn ogystal â'i haddysg. Helpodd y gweithiwr o Dîm Troseddwyr Ifanc **Blackpool** (lletyol) Jenny i ddeall 'pwy oedd yn gwneud beth' ac fe wnaeth amserlen iddi'n ddangos lle'r oedd ei hapwyntiadau a gyda phwy.

Roedd Cissie, merch 14 oed, yn flin a'i hymddygiad tuag at staff preswyl yn elyniaethus ac wedi arwain at sawl collfarn am ymosodiadau o fewn y cartref plant. Cafodd ei gosod yn **Sir Amwythig, Telford a Wrekin** lle cyflawnwyd gwaith rhagorol gyda hi. Roedd un sesiwn yn cynnwys edrych ar ei dicter a beth oedd yn ei olygu. Roedd hi'n gallu gweld ei fod weithiau'n cuddio emosiynau eraill megis pryder, gorbryder a thrallod. Gyda'i gilydd defnyddiodd hi a'r rheolwr achos nifer o senarios i adnabod y pum prif sefyllfa yn y cartref plant lle'r oedd hi'n debygol o golli ei thymer a dyfeisiodd ffyrdd i osgoi hynny rhag digwydd.

Roedd Gary wedi troseddu ac achosi difrod o fewn lleoliad preswyl blaenorol. Fe wnaeth y gweithiwr o Dîm Troseddwyr Ifanc (lletyol) **Blackpool** weithio'n galed i feithrin perthynas ag ef a chyflawnodd waith ymddygiad troseddol da drwy ganolbwyntio ar y drosedd o fewn y cartref plant. Fe wnaeth Gary wedyn gwblhau gwaith adferol lle adnewyddodd hen fwrdd. Gan nad oedd yn gallu ei roi i'w leoliad gwreiddiol, cyflwynodd ef i'r leoliad preswyl presennol.

## Gwaith i leihau troseddoli mewn cartrefi plant

3.21. Roedd gorchmynion cyfeirio'n ffurfio 30% o'r achosion a arolygwyd a allai ddangos bod y plant a'r bobl ifanc hynny'n rhai nad oedd yn debygol o fod wedi troseddu o'r blaen. Drwy na roddwyd cynnig ar gyfiawnder adferol ond ar bedwar achlysur, ymddengys yn debygol y gellid bod wedi osgoi erlyn mewn o leiaf rai o'r achosion hyn. Er nad oes unrhyw ddata swyddogol cenedlaethol i'w brofi na'i wrthbrofi, dywedodd dedfrydwyr a staff sy'n gweithio yn y maes wrthym fod, yn eu barn hwy, plant a phobl ifanc yn dal i gael eu herlyn am achosion mewn cartrefi plant na fyddai wedi denu sylw'r heddlu mewn amgylchedd cartref.

3.22. Mae cyfiawnder adferol yn ddull sy'n canolbwyntio ar anghenion y dioddefwyr a'r gymuned lle digwyddodd y drosedd, yn lle dim ond cosbi'r troseddwr. Mae'n pwysleisio atgyweirio'r niwed a achoswyd gan ymddygiad troseddol. Caiff dioddefwyr eu hannog i gymryd rhan yn y broses, tra bod y rheini sydd wedi cyflawni troseddau'n cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, atgyweirio'r niwed y maent wedi'i wneud – er enghraifft trwy ymddiheuro, dychwelyd arian a gafodd ei ddwyn neu gyflawni rhywfaint o waith yn y gymuned.

3.23. Cydnabyddir y gall y dull hwn fod yn neilltuol o berthnasol a defnyddiol mewn cartrefi plant er mwyn osgoi cynnwys y system gyfiawnder troseddol ffurfiol yn ddiangen. Os defnyddir dull cyfiawnder adferol gan staff preswyl fel rhan annatod o helpu a rheoli plant a phobl ifanc, gall rwystro ymddygiad drwg rhag dod yn fater troseddol ac osgoi cynnwys yr heddlu. Mae canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cydnabod bod yr heddlu'n fwy tebygol o gael eu galw i gartref plant nag mewn lleoliad domestig ac mae'n crybwyll yn benodol cyfiawnder adferol fel dewis arall posibl yn lle gweithdrefnau llys.

3.24. Gan fod y dull hwn wedi ennill momentwm dros y blynyddoedd diwethaf, mae Timau Troseddwyr Ifanc mewn rhai ardaloedd wedi cymryd rhan mewn gwaith partneriaeth llwyddiannus gyda chartrefi plant er mwyn osgoi troseddoli plant a phobl ifanc. Yn anffodus, yn yr ardaloedd yr ymwelasom â hwy, roedd yn gyffredinol anymarferol i Dimau Troseddwyr Ifanc gynnig cyngor neu hyfforddiant mewn technegau cyfiawnder adferol i staff preswyl yn wyneb y nifer o gartrefi plant yn eu hardal. Yn yr 19 o achosion yn y sampl lle gellid bod wedi rhoi cynnig ar gyfiawnder adferol, mewn pedwar yn unig y cyflawnwyd hyn.

**Enghraifft o arfer dda: gwaith i leihau troseddoli**

Roedd Tîm Troseddwyr Ifanc **Halton a Warrington** wedi cysylltu rheolwr achosion ag unedau preswyl penodol er mwyn gwella gweithio ar y cyd ac fe wnaeth rheolwr llys y Tîm Troseddwyr Ifanc fynychu fforwm darparwyr llety yn Halton, y bu i'r mwyafrif o'r darparwyr preifat ei fynychu'n ogystal. Roedd eu gweithiwr adfer hefyd wedi cynnig hyfforddiant cyfiawnder adferol i un o'r unedau yn yr ardal, a oedd wedi cael derbyniad da.

### Cyswllt Timau Troseddwyr Ifanc â chartrefi plant

3.25. Adroddodd gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc lletyol amrywiaeth o ffyrdd o ryngweithio â staff preswyl. Roedd rhai Timau Troseddwyr Ifanc wedi gwneud ymdrechion sylweddol i sefydlu perthnasoedd gwaith gyda gweithwyr allweddol a gwnaed ymdrechion hefyd mewn rhai ardaloedd i feithrin perthnasoedd gweithio cyffredinol da gyda darparwyr lleoliadau er mwyn gwella, ymhlith pethau eraill, y cydymffurfiad â gorchmynion llys. Fodd bynnag, mewn ardaloedd gyda niferoedd mawr o gartrefi plant, nid oedd hyn bob amser yn ymarferol. Roedd patrymau sifft gweithwyr allweddol hefyd yn ffactor. Er hyn, gwelsom rai enghreifftiau o ymyriadau'n cael eu cyflawni o fewn cartrefi plant a gweithwyr allweddol yn cludo plant a phobl ifanc i gyfarfodydd gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc.

### Rôl y Tîm Troseddwyr Ifanc mewn gweithio amlasiantaethol

3.26. Y gwerth ychwanegol y mae staff Timau Troseddwyr Ifanc yn ei roi wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yw eu gwybodaeth arbenigol a'u harbenigedd wrth asesu a gweithio gydag ymddygiad troseddol a gwarchod y cyhoedd. Mae ganddynt sgiliau penodol hefyd wrth ffurfio perthynas a gweithio'n agos â glasoed a phobl ifanc yn eu harddegau. Caiff gwaith Timau Troseddwyr Ifanc ei gyflawni trwy gysylltiad rheolaidd â'r rheini o dan oruchwyliaeth. I rai, gall fod cymaint â thair gwaith yr wythnos, lefel o gyswllt nad oes gan asiantaethau eraill. Ar wahân i'r gweithwyr preswyl allweddol, gweithiwr y Tîm Troseddwyr Ifanc yn aml iawn oedd y person y deuai'r plentyn neu berson ifanc i fwyaf o gyswllt ag ef neu hi. Roedd yn arwyddocaol fod y plant a'r bobl ifanc a gyfwelasom yn llethol gadarnhaol ynghylch eu perthynas â'u gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc.

**Dyfyniadau gan blant a phobl ifanc ynghylch y Timau Troseddwyr Ifanc**

*"Fe wnaeth y gwaith a wnes i gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc imi sylweddoli bod yr hyn a wnes i'n gwbl wirion. Fe wnaeth imi sylweddoli bod yna ffyrdd eraill y gallwn fod wedi ymdrin â'r sefyllfa".*

*"Dw i'n edrych ymlaen at ddod at y Tîm Troseddwyr Ifanc".*

*"Dw i'n gyrru ymlaen yn dda gyda'm gweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc. Dyw hi ddim wedi anobeithio amdanaf".*

3.27. Roedd hi'n siomedig felly i nodi'r diffyg dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o rôl gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc gan rai asiantaethau allanol a'r methiant ei geisio eu barn ynghylch lleoliadau neu, yn waeth, anwybyddu eu barn. Nid oedd yn anarferol ychwaith i weithwyr Timau Troseddwyr Ifanc beidio â chael eu gwahodd i adolygiadau gan Swyddogion Adolygu Annibynnol nac i gofnodion y cyfarfododd beidio â chael eu hanfon atynt. Gwelsom fwy nag un achlysur lle'r oedd gweithwyr allweddol mewn cartrefi plant nid yn unig wedi methu ag atgoffa plant a phobl ifanc o'u hapwyntiadau Tîm Troseddwyr Ifanc ond wedi mynd â hwy allan ar weithgaredd pryd y dylent fod yn cysylltu gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc. Mewn un achos, aeth gweithiwr y Tîm Troseddwyr Ifanc i'r cartref plant i gyfarfod y person ifanc a cherddodd i mewn i adolygiad nad oedd hi wedi cael ei gwahodd iddo.

3.28. Roedd llawer o weithwyr cymdeithasol a Swyddogion Adolygu Annibynnol nad oeddent yn cydnabod arwyddocâd ymddygiad troseddol y plentyn neu berson ifanc a'r gwaith i'w leihau, gan ei ystyried fel rhywbeth ymylol i fywyd y plentyn neu berson ifanc ac i'r gwaith cynllunio'r oeddent yn ei wneud. Eto gall effaith eu hymddygiad troseddol ar fywyd y plentyn neu berson ifanc ac ar eu cyfleoedd bywyd yn y dyfodol fod yn aruthrol. Yn ogystal, ychydig o weithwyr proffesiynol a roddodd ystyriaeth i faterion diogelu'r cyhoedd ac ni roddent ddigon o ystyriaeth i ddioddefwyr posibl, a allai fod yn blant a phobl ifanc eraill mewn lleoliadau preswyl.

3.29. Dim ond mewn 18 o'r achosion a arolygwyd y barnwyd bod cyfraniad rheolwyr achosion Timau Troseddwyr Ifanc i gyfarfodydd amlasiantaethol yn un adeiladol. Er enghraifft, weithiau ni chanfuasom fawr o fewnbwn i'r cyfarfod heblaw darparu gwybodaeth. Nid oedd staff Timau Troseddwyr Ifanc bob amser mor bendant a phenderfynol mewn lleoliadau amlasiantaethol ag oedd angen iddynt fod. Nid yn unig ym maes gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, ond hefyd mewn cyfarfodydd Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd, lle'r oeddent weithiau'n cael eu hanwybyddu neu eu hymylu.

3.30. Nid oedd y defnydd o jargon a dulliau asesu sy'n benodol i Dimau Troseddwyr Ifanc megis sgoriau Asset neu RoSH yn gwneud pethau'n haws i weithwyr proffesiynol eraill yn y lleoliadau hynny ddeall arwyddocâd yr wybodaeth a gyflwynwyd. Roedd angen i staff Timau Troseddwyr Ifanc ddeall y gynulleidfa, defnyddio iaith a oedd yn cael ei deall ar unwaith a theilwra eu mewnbwn i gyfarfodydd amlasiantaethol er mwyn cynyddu eu dylanwad. Yn rhy aml gwelsom fod Timau Troseddwyr Ifanc yn bresennol ond na chafodd eu cyfraniad fawr o effaith yn y gwaith o benderfynu.

Roedd Larry, dyn ifanc 17 oed, ar orchymyn gofal llawn a chafodd ei asesu gan y Tîm Troseddwyr Ifanc fel rhywun a oedd yn peri risg uchel o niwed i bobl. Roedd ganddo hanes o fygythiadau ac o wneud arfau. Roedd yn destun goruchwyliaeth Lefel 2 Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd. Fe wnaeth y Tîm Troseddwyr Ifanc perthnasol gymryd camau i reoli'n dda y risg o niwed. Fe wnaeth yr asesiadau risg a baratowyd gan weithwyr y Tîm Troseddwyr Ifanc ddogfennu hanes o wylio tai pan gafodd ei osod mewn lleoliad preswyl ac wedyn dargedu dioddefwyr agored i niwed am fwrgleriaeth. Yn anffodus nid ymddengys fod hyn wedi cael ei ystyried wrth benderfynu'r lleoliad gorau ac aeth Larry ymlaen i dorri i mewn i dai gerllaw.

Roedd gan Kelvin hanes o ymddygiad a oedd yn peri pryder gan gynnwys clymu plentyn arall i goeden, cynnau tân ac ymddygiad rhywiol niweidiol. Yn ôl cofnodion Timau Troseddwyr Ifanc roedd wedi bod mewn o leiaf ddau leoliad o'r blaen a oedd y tu allan i'w ardal. Fe fethodd y lleoliad yn sgil perthynas rywiol â merch 14 oed yn yr un cartref plant. Ni chafodd y Tîm Troseddwyr Ifanc cartref na'r Tîm lletyol eu hysbysu o hyn gan y gweithiwr cymdeithasol. Roedd y lleoliad newydd mewn tŷ aelod o deulu estynedig Kelvin; roedd plant ifanc yn y cartref ac ni chanfuom ddim tystiolaeth o unrhyw wiriadau addasrwydd nag asesiadau gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant.

**Enghraifft o arfer dda: gweithio amlasiantaethol**

Fe wnaeth Tîm Troseddwyr Ifanc **Bournemouth a Poole** weithio gyda Swyddogion Adolygu Annibynnol i'w helpu hwy wella'r gwaith o ddiogelu'r plant a'r bobl ifanc yr oeddent yn gweithio gyda hwy. Yn rheolaidd, archwiliodd y Swyddogion Adolygu Annibynnol yr agweddau diogelu o achosion y Tîm Troseddwyr Ifanc er mwyn sicrhau ei fod yn cael y flaenoriaeth briodol. Cyfrannodd hyn at wella'r gwaith o ddiogelu gan y Tîm. Fe wnaeth yr hyder ychwanegol a enillwyd gan ymarferwyr y Tîm wella'u heffeithiolrwydd mewn cyfarfodydd amlasiantaethol gan eu helpu hwy i sicrhau bod asiantaethau eraill yn cyflwyno gwasanaethau perthnasol i'r plant a'r bobl ifanc hyn. Yn ogystal, roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn gallu rhannu meysydd o arferion a gafodd eu hadnabod gan weithwyr y Tîm Troseddwyr Ifanc gyda chydweithwyr ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol plant.

## Casgliad

3.31. Nid oedd amgylchiadau penodol bywydau a phrofiadau'r plant a phobl ifanc hyn bob amser yn cael eu cydnabod yn llawn a'u hystyried gan Dimau Troseddwyr Ifanc (cartref a lletyol) ac roedd y gwaith gyda hwy'n cael ei effeithio gan hyn. Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd Timau Troseddwyr Ifanc lletyol yn gweithio'n galed i gefnogi a goruchwylio plant a phobl ifanc a osodwyd yn eu hardal ac roeddent yn llwyddiannus wrth sefydlu perthnas â hwy. Roedd hyn yn aml yn erbyn cefndir o straen ar eu hadnoddau ac roedd yn cael ei lesteirio'n rhy aml gan wybodaeth annigonol neu wedi ei ohirio gan Dimau Troseddwyr Ifanc cartref ac asiantaethau eraill. Roedd hyn o bryder neilltuol wrth reoli'r risg oedd yn cael ei beri i eraill ac a oedd yn cael ei ddwysáu gan fethiant, ar adegau, gan asiantaethau eraill i ddeall a gwerthfawrogi'n llawn rôl gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc.

# 4. Gweithio gyda'n gilydd

**Crynodeb**

Mae'r adran hon yn disgrifio'r gweithio ar y cyd rhwng yr amrywiol asiantaethau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc a'i effaith arnynt.

*Canfyddiadau allweddol*

- Mae cyfrifoldebau awdurdodau lleol dros blant a phobl ifanc a leolir y tu allan i'w hardal yn gymhleth ac ni ddefnyddir llawer o ddata fel sail i gynllunio adnoddau.
- Nid oedd awdurdodau lleol bob amser yn defnyddio cartrefi plant o fewn eu hardal eu hunain a ddefnyddid gan awdurdodau lleol eraill oherwydd pryder ynghylch eu haddasrwydd.
- Caiff y penderfyniad ynghylch pa blant a phobl ifanc sy'n ddiogel ac addas i fyw gyda'i gilydd ei wneud gan y darparwyr. Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol sy'n lleoli'n gwybod pwy yw'r trigolion eraill.
- Mae nifer mawr o weithwyr proffesiynol y mae gan blant ac unigolion ifanc berthynas â hwy ac mae'r nifer yn cynyddu gyda phob newid lleoliad.
- Mae asiantaethau'n aml yn methu â gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, wrth ganolbwyntio ar eu gweithdrefnau eu hunain a methu â gweithio gyda'r plentyn neu berson ifanc mewn ffordd gydlynol.
- Mae llawer o asesiadau nad ydynt yn arwain at unrhyw ymyriad ystyrlon na newid ym mywyd y plentyn neu berson ifanc ac mae llawer o gynlluniau nad ydynt wedi eu hintegreiddio neu maent yn gwrth-ddweud ei gilydd.
- Adroddodd gweithwyr Timau Troseddau Ieuenctid nad oedd ganddynt lawer o wybodaeth ar gael iddynt ynghylch cynnwys ac ansawdd gwaith mewn unedau therapiwtig.
- Nid yw rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cael ei gyflawni'n effeithiol bob amser. Ychydig o herio sydd ynghylch addasrwydd lleoliad ac nid oes fawr o gydlynu wrth gynllunio.

## Rheoli strategol

4.1. Ar lefel awdurdodau lleol, mae'r cyfrifoldeb am y grŵp hwn yn gymhleth. I bob pwrpas mae yna ddau grŵp gwahanol o blant a phobl ifanc y mae gan uwch reolwyr gyfrifoldebau drostynt: eu rhai eu hunain, y maent wedi eu gosod y tu allan, a'r rheini o awdurdodau eraill sydd wedi cael eu lleoli yn eu hardal hwy. Mae gan yr awdurdod lleol wahanol ddyletswyddau tuag at y ddau grŵp hyn. Mae dyletswyddau rhieni corfforaethol tuag at blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu gosod mewn ardal arall yn parhau gyda'r awdurdod lleol cartref. Ym mhob un ond un o'r ardaloedd yr ymwelasom â hwy, roedd uwch reolwyr yn ymwybodol o'r plant a'r bobl ifanc yr

oeddent wedi eu gosod y tu allan i'w hardal ac roeddent yn gyfarwydd â hamgylchiadau unigol.

4.2. Mae gan yr awdurdod lleol lletyol ddyletwydd i ddiogelu'r *holl* blant o fewn ei ffiniau daearyddol; caiff y ddyletswydd hon ei gweinyddu trwy'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Wrth osod plentyn y tu allan i ardal eu cartref dylai'r awdurdod lleoli hysbysu'r awdurdod sy'n derbyn. Yn ymarferol, mae hyn yn anghyson. Felly mae'n bosibl y gall awdurdod lleol, sydd â dyletswydd i ddiogelu, beidio â gwybod bod plentyn neu berson ifanc yn eu hardal. Roedd Byrddau Lleol Diogelu Plant yn amrywio'n sylweddol yn y ffordd yr oeddent yn ymdrin â'r mater hwn. Roedd rhai'n mynd ati'n fwriadol i geisio gwybodaeth am y plant hynny oedd yn preswylio yn eu hardal ac yn ystyried pa wasanaethau y gellid eu hymestyn iddynt tra bod eraill yn cymryd agwedd fwy adweithiol gan ganolbwyntio ar eu cyfrifoldeb i ddiogelu.

4.3. I'r awdurdodau lleol hynny gyda nifer o gartrefi plant yn eu hardaloedd canfuom ei bod yn broblem sylweddol iddynt o ran adnoddau yn ogystal â her i ddiogelu poblogaeth o blant nad oedd ganddynt ddata cywir amdanynt. Cyflawnir y gwaith o gofrestru ac arolygu cartrefi plant gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (yng Nghymru) a chan Ofsted (yn Lloegr) a darperir gwybodaeth gan y sefydliadau hyn i'r awdurdod lleol perthnasol yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid oes gan gartref plant gyfrifoldeb cyfreithiol i hysbysu'r awdurdod lleol o'i bresenoldeb ac nid oes gan yr awdurdod lleol unrhyw gyfrifoldeb dros fonitro'r cartref plant. Yn ymarferol, yn aml iawn, ychydig o ryngweithio â phlant a phobl ifanc unigol sydd gan yr awdurdod lleol sy'n derbyn er y gallant yn hawdd fod yn adnabyddus i'r asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol – y llysoedd, yr heddlu a'r Timau Troseddwyr Ifanc.

**Enghraifft o arfer dda: darparu gwasanaethau**

Roedd awdurdod lleol Halton wedi cymryd y safiad mai eu 'rhai hwy' oedd y plant a'r bobl ifanc yn eu hardal ac y dylai pawb ohonynt dderbyn yr un ansawdd o wasanaethau. Er enghraifft, darparasant ysgol haf i blant a phobl ifanc mewn gofal i helpu gyda phontio i'r flwyddyn ganlynol mewn addysg ac roedd hyn yn agored i'r plant a'r bobl ifanc hynny o'r tu allan i'r ardal. Maent wedi gwneud ymdrechion sylweddol i 'fapio' unedau'r plant yn eu hardal er mwyn eu galluogi i gadw llygad ar blant a phobl ifanc o'r tu allan.

**Enghraifft o arfer dda: deall lleoliadau y tu allan i ardal**

Yn Swydd Gaergrawnt, rhoddwyd ystyriaeth i sut i gynnwys aelodau arweiniol yn fwy ym mywydau'r plant a'r bobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt. Un awgrym oedd y gallent ymweld â'r rheini mewn lleoliadau y tu allan i'w hawdurdod er mwyn cael gwell darlun o'r profiad.

4.4. Roedd yn werth nodi inni weld nifer o achosion lle'r oedd yr awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad na fyddent yn defnyddio darparwyr o fewn eu ffiniau daearyddol eu hunain er gwaethaf y ffaith fod awdurdodau lleol eraill yn eu defnyddio'n rheolaidd. Yn yr amgylchiadau hyn, byddem wedi disgwyl i awdurdodau lleol wneud gwiriadau gyda'i gilydd yngylch y rhesymau dros y penderfynadau hyn er mwyn sicrhau diogelwch y plant a'r bobl ifanc yr oeddent yn eu gosod yno. Ni chanfuasom ddim o hyn fodd bynnag. Felly, roedd hi'n aneglur inni sut y gallai un

awdurdod lleol fod yn sicr fod y lleoliad yn ddiogel ac o ansawdd da pan oedd awdurdod arall wedi dod i farn wahanol.

4.5. Yn yr ardaloedd yr ymwelasom â hwy, canfuom nad oedd llawer o ddata'n cael ei gasglu y gellid ei ddefnyddio fel sail i bolisi ac arferion nac i benderfynu faint o adnoddau oedd yn ofynnol yn lleol i ddarparu gwasanaethau'n briodol. Roedd ambell ymgais wedi cael ei gwneud i fynd i'r afael â'r diffyg hwn, er enghraifft roedd rhai Timau Troseddwyr Ifanc wedi cyfrifo'r ganran o'r achosion hyn ar eu llwyth gwaith (roedd yn amrywio o 10% i gymaint â 20% ar brydiau). Fodd bynnag, nid oedd awdurdodau lleol yn gyffredinol ymwybodol o wybodaeth ynghylch y plant a osodwyd yn eu hardal. Lle'r oedd ganddynt ddata, roedd ynghylch y plant yr oeddent hwy wedi eu gosod yn rhywle arall.

4.6. Mewn awdurdodau lleol gyda chlystyrau o gartrefi plant, nid oedd neb yn gallu dweud wrthym yn union beth oedd yr effaith ar wasanaethau lleol megis addysg, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl na chyfiawnder troseddol er y teimlid yn aml ei fod yn sylweddol. Roedd rhai asiantaethau wedi edrych ar y posibilrwydd o geisio codi am y gwasanaethau hyn, heb lwyddiant. Dywedodd rheolwyr mewn mwy nag un Tîm Troseddwyr Ifanc wrthym fod yr adnoddau'r oedd eu hangen i oruchwylio plant a phobl ifanc o'r tu allan i'r ardal wedi golygu eu bod yn llai abl i oruchwylio'r rheini a oedd o'r ardal leol.

Roedd Tîm Troseddwyr Ifanc Essex wedi gwella'n sylweddol eu gwybodaeth o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal trwy ymholi'n drylwyr â data a ddelir eisoes gan y Tîm Troseddwyr Ifanc a'r gwasanaethau plant. Teimlent fod hyn wedi eu galluogi i ddylanwadu ar y penderfyniadau lleoli ynghylch plant a phobl ifanc Essex a oedd wedi cael effaith ar gynaliadwyedd y lleoliad ac wedi lleihau troseddu o fewn y lleoliad preswyl. Credent hefyd ei fod wedi gwella'r cydgysylltu gyda'r Swyddog Adolygu Annibynnol, gan sicrhau bod materion cyfiawnder ieuenctid yn cael eu hystyried yn briodol mewn cynlluniau gofal.

## Diwallu a rheoli angen amrywiol

4.7. Ychydig o dystiolaeth a welsom o unrhyw riant corfforaethol yn gofyn ynghylch manylion preswylwyr eraill cyn gosod plant a phobl ifanc mewn cartref penodol. Roedd hyn yn cael ei adael i'r asiantaeth a oedd yn cael ei thalu i ddarparu'r lleoliad. Ni allent hwy, yn eu tro, ond gwneud unrhyw benderfyniad ar sail yr wybodaeth a roddwyd iddynt, a oedd weithiau'n anghyflawn. Dywedwyd wrthym gan staff preswyl fod problemau'n codi'n aml gydag ansawdd a maint gwybodaeth mewn achosion a leolwyd ar benwythnosau fel lleoliadau argyfwng. Roedd hyn yn peri pryder neilltuol drwy fod y plant a'r bobl ifanc hynny, oherwydd eu natur, yn debygol o fod yn drallodus ac yn ansefydlog iawn. Ar un achlysur, fe wnaeth asiantaethau preswyl symud plant a phobl ifanc o un cartref plant i'r llall heb drafod yn gyntaf gyda'r awdurdod lleol; felly byddai unrhyw ymholiadau cychwynnol a wnaed ynghylch trigolion eraill yn dod yn annilys.

Roedd Tanya wedi dod i ofal pan oedd yn 11, yn dilyn camdriniaeth rhywiol a chorfforol. Roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc lletyol oedd yn ei goruchwylio hi hefyd yn goruchwylio dyn ifanc, Ian, a oedd ag amryw o honiadau o ymddygiad rhywiol niweidiol yn ei erbyn. Gofynnodd y Tîm Troseddwyr Ifanc i'r darparwr gofal, a oedd â llawer o gartrefi yn yr ardal, i beidio â'u lleoli hwy gyda'i gilydd, a chytunwyd ar hyn. Ddeufis yn ddiweddarach, symudodd trydydd person ifanc, Lisa, i'r ardal ac roedd hi'n cael ei goruchwylio gan y Tîm Troseddwyr Ifanc. Dyna'r adeg, pryd yr honnodd Lisa i Ian ymosod yn rhywiol arni, y canfu'r Tîm Troseddwyr Ifanc fod Tanya mewn gwirionedd wedi cael ei symud i'r un cartref plant â'r dyn ifanc.

### Lleoliadau therapiwtig ac arbenigol

4.8. Roedd nifer bach o blant a phobl ifanc yn y sampl wedi cael eu lleoli mewn unedau a oedd yn arbenigo mewn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a oedd yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Ni welsom unrhyw dystiolaeth yn yr achosion a arolygasom fod gweithwyr cymdeithasol, Swyddogion Adolygu Annibynnol na chomisiynwyr wedi gwirio cynnwys nac ansawdd y mewnbwn therapiwtig. Adroddodd staff Timau Troseddwyr Ifanc hefyd mai ychydig iawn o wybodaeth oedd ganddynt ar gyfer gwneud asesiad o ansawdd y gyfundrefn a ddarperir mewn unedau o'r fath a'i addasrwydd i blentyn neu berson ifanc. Gall rhai o'r grŵp bach iawn hwn o blant a phobl ifanc beri risg uchel neu uchel iawn i bobl eraill a phetaent yn aildroseddu gallai'r canlyniadau i ddioddefwyr fod yn ddifrifol. Roedd rhai lleoliadau arbenigol yn cael eu hachredu gan y Community of Communities, corff gwirfoddol sy'n cael ei redeg gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion. Nid oedd yn eglur inni sut yr enillwyd achrediad na pha mor berthnasol oedd mewn rhai achosion, drwy nad yw ymddygiad rhywiol niweidiol yn cael ei ddosbarthu'n arferol fel salwch seiciatryddol.

Cafodd Angus, 14, ei osod mewn uned yn arbenigo mewn ymddygiad rhywiol niweidiol. Roedd gan yr uned wyth o fechgyn eraill ar y pryd er y gallai ddal 12. Ynghyd â dau fachgen 16 oed arall, dihangodd o'r uned a honnodd yn ddiweddarach iddynt ymosod yn rhywiol arno. Cynhaliwyd ymchwiliad gan yr heddlu. Fe wnaeth y bechgyn i gyd ddal i aros yn yr uned.

### Gweithio ar y cyd

4.9. Mae gan y grŵp hwn o blant a phobl ifanc nifer sylweddol yn aml o weithwyr sy'n ymwneud yn eu bywydau. Mae eu statws 'derbyn gofal' yn ei gwneud hi'n ofynnol iddynt gael gweithiwr cymdeithasol a Swyddog Adolygu Annibynnol. Gall eu presenoldeb yn y system gyfiawnder troseddol hefyd ei gwneud hi'n ofynnol iddynt gael swyddog Tîm Troseddwyr Ifanc i'w goruchwylio os ydynt wedi cael eu gwneud yn destun gorchymyn ac mae eu lleoliad y tu allan i'w hardal yn golygu y bydd ganddynt weithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc arall yn yr ardal lle maent yn byw. Bydd ganddynt hefyd weithwyr allweddol ym mhob lleoliad preswyl yn ogystal â gweithwyr proffesiynol addysg a'r rheini o asiantaethau eraill megis iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau. Gyda phob symudiad, mae'r nifer o berthnasoedd y mae gofyn iddynt eu cychwyn a'u diweddu'n cynyddu.

4.10. Canfuom weithio effeithiol ar y cyd rhwng Timau Troseddwyr Ifanc a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant mewn chwarter yn unig o'r achosion, ac mewn ychydig o

dan hanner gyda gwasanaethau addysg ac iechyd meddwl. Yn ein trafodaethau gyda gwahanol asiantaethau, pan ofynasom ynghylch gweithio ar y cyd, cytunodd y mwyafrif am yr angen i rannu gwybodaeth; fodd bynnag, roedd llawer llai o ddealltwriaeth o beth oedd gweithio gyda'i gilydd yn ei olygu'n ymarferol mewn gwirionedd. Yn yr achosion yn y sampl arolygu ychydig o asesu ar y cyd a welsom a dim cynllunio ar y cyd rhwng unrhyw asiantaethau.

4.11. Nid oedd asiantaethau bob amser yn defnyddio' r un derminoleg ac iaith. Mae'r defnydd o'r gair *risg* yn enghraifft o hyn. Roedd yn cael ei ddefnyddio'n aml gan asiantaethau ond yn golygu pethau gwahanol i bob un. O fewn gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, er enghraifft, mae'r term yn gyffredinol yn cyfeirio at y risg o niwed i blant a phobl ifanc, tra o fewn maes troseddu ieuenctid, mae'n gyffredinol yn golygu'r risg y maent yn ei achosi i bobl eraill. Fe'i defnyddir hefyd gan rai asiantaethau i ddisgrifio'r risg o hunan-niwed neu hunanladdiad. Mae'r fath ddiffyg manylder yn arwain at gamddealltwriaethau a'r potensial am ddyblygu, neu'n fwy difrifol, hepgor. Roedd camddealltwriaeth ac amheuaeth rhwng rhai asiantaethau. Roedd asiantaethau eraill nad oeddent yn teimlo bod eu hasesiadau a'u cynlluniau'n cael eu hystyried bob amser.

4.12. I lawer o blant a phobl ifanc canfuom rhywfaint o waith a oedd yn dda neu ragorol a chyfarfuom â gweithwyr proffesiynol unigol, ar bob lefel, a oedd yn hynod o ymroddedig ac yn gweithio'n galed iawn i wella bywydau. Fodd bynnag, golygai'r diffyg gweithio ar y cyd nad oedd yr ymyriad *cyfan* yr oedd y plentyn neu berson ifanc yn ei dderbyn mor llwyddiannus ag y gallai fod. Er engraifft, gwelsom weithiwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) Tîm Troseddwyr Ifanc yn cyflawni gwaith gwerthfawr, unigol gyda pherson ifanc, ond yn methu â chyfrannu at yr asesiad ehangach na chynllunio ynghylch y risg o newid yr oeddent yn ei achosi i bobl eraill na rhoi sylw i'w breguster.

4.13. Roedd gweithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol yn dwysáu'r broblem hon. Lle byddai un asiantaeth wedi gwneud ymdrechion, byddai'n cael ei llesteirio gan waith un arall. Roedd yna eithriadau ac roedd yn amlwg yn Nhîm Troseddwyr Ifanc Halton a Warrington fod ymdrechion wedi cael eu gwneud i wella gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill, rhai cartref a rhai lletyol, a gwelsom enghreifftiau lle'r oedd hyn wedi bod o fudd i'r plentyn neu berson ifanc.

4.14. Ar y cyfan, fodd bynnag, yr hyn a welsom oedd asiantaethau'n gweithio ar eu pennau eu hunain, gyda chyfarfodydd ysbeidiol i gyfnewid gwybodaeth a diweddaru staff o bob asiantaeth a oedd yn ymwneud â'r plentyn neu berson ifanc. Ychydig o dystiolaeth o welsom o ddull 'tîm o gwmpas y plentyn'. Roedd gweithwyr unigol yn canolbwyntio ar ofynion eu hasiantaethau eu hunain ac yn ystyried mai hynny oedd y dasg bwysig. Lle'r oedd asiantaeth arweiniol mewn amgylchedd penderynu penodol, er enghraifft mewn cyfarfodyd Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd neu gyfarfodydd adolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, barn yr asiantaeth arweiniol oedd yn cario'r dydd yn arferol.

## Asesu a chynllunio ar y cyd

4.15. Canfuom nifer mawr o asesiadau a chynlluniau'n cael eu cwblhau gan wahanol sefydliadau. Nid oedd asesiadau bob amser yn arwain at ymyriad na newid dull gweithredu. Gwelsom rai achosion lle'r oedd asesiadau a oedd yn gwrth-ddweud ei

gilydd ac oedi mewn penderfyniadau tan yr asesiad nesaf. Yn benodol, gwelsom nifer o asesiadau seiciatryddol a seicolegol a oedd yn gwrth-ddweud ei gilydd.

Cafodd Alex ei gymryd i ofal pan oedd yn bump oed. Roedd ei dad a'i lys-dad i mewn ac allan o'r carchar. Roedd wedi bod yn dyst i drais domestig ac o bosibl weithgaredd rhywiol. Cafodd 13 o leoliadau maeth, yr olaf yn torri i lawr yn 2009. Aeth wedyn i gartref plant a dilynwyd hyn gan fwy o ofalwyr maeth ac wedyn leoliad seibiant am nifer o fisoedd. Roedd yn arddangos rhywfaint o ymddygiad rhywiol a oedd yn peri pryder mawr.

Cafodd ei asesu gan weithiwr cymdeithasol arbenigol, o fewn yr un awdurdod lleol, a wrthododd â rhannu'r asesiad gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc a oedd yn gweithio gydag ef.

4.16. Yn yr asesiadau Timau Troseddwyr Ifanc a welsom, ac yn y rheini ar ffeiliau achosion Timau Troseddwyr Ifanc o asiantaethau eraill, ni chanfuom fawr ddim crybwyll o gamau datblygiad plentyn nac unrhyw ystyriaeth o gyd-destun ymddygiad 'arferol' pobl ifanc yn eu harddegau. Ychydig iawn o grybwyll a welsom o ymlyniad a chanlyniadau'r colledion yr oedd y plant a'r bobl ifanc hyn yn eu hwynebu. Canfuom lawer o waith adweithiol a chynlluniau ar gyfer y symudiad nesaf, tymor byr. Ni welsom unrhyw gynlluniau hirdymor nac unrhyw uchelgais am unrhyw beth heblaw darparu gwasanaethau sylfaenol.

4.17. Ychydig enghreifftiau oedd o asiantaethau'n cynllunio ac yn gweithredu ffyrdd o weithio ar y cyd. Yn anffodus, yr hyn oedd hynny'n ei olygu'n ymarferol oedd fod y budd cyffredinol i'r plentyn neu berson ifanc unigol yn cael ei wanhau neu hyd yn oed ei golli.

4.18. Roedd yn arbennig o siomedig gweld y diffyg cynllunio ar gyfer y rheini'n gadael dedfrydau o dan glo, drwy fod yma gyfle i wneud cynlluniau ymhell o flaen llaw. Mae dyddiad y rhyddhau'n hysbys yn gynnar ac mae anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn hysbys iawn. Fodd bynnag, gwelsom fwy nag un achos lle na wnaed penderfyniadau tan y funud olaf.

Roedd Winston, 16, wedi cael 31 o wahanol leoliadau ers dod i ofal yn dair oed. Roedd ganddo hanes o ymddygiad treisgar ac o fod ag arfau yn ei feddiant. Roedd ei gariad 16 oed, a oedd hefyd yn derbyn gofal, wedi rhoi genedigaeth i'w ferch a gafodd ei gwneud yn destun gweithdrefnau amddiffyn plant, tra oedd ef yn y ddalfa. Roedd asiantaethau'n bryderus ei fod yn peri risg i'r plentyn ac i'r cyhoedd.

Ni chafodd ei lety ei gadarnhau tan y diwrnod cyn ei ryddhau.

4.19. Wrth wneud lleoliadau anaml yr oedd gwasanaethau cymdeithasol plant yn rhoi ystyriaeth i asesiadau ac argymhellion Timau Troseddwyr Ifanc, gan arwain at droseddu y gellid bod wedi ei osgoi. Golygai hyn hefyd fod staff a phlant a phobl ifanc eraill yn wynebu risg posibl o niwed. Canfuom nifer o achosion lle'r oedd pobl ifanc a oedd wedi cael eu hasesu gan y Tîm Troseddwyr Ifanc fel rhai oedd yn peri risg o niwed i eraill, wedi mynd ymlaen i ymosod ar drigolion eraill y cartref plant.

4.20. Canfuom hefyd fod gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn aml yn methu â hysbysu Timau Troseddwyr Ifanc o symudiadau lleoliadau. I'r gwrthwyneb, lle'r oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant wedi rhybuddio'r Tîm Troseddwyr Ifanc cartref o newid lleoliad, roedd Timau Troseddwyr Ifanc cartref hefyd weithiau wedi methu â throsglwyddo gwybodaeth yn ddi-oed i'r Tîm Troseddwyr Ifanc lletyol. Y naill

ffordd neu'r llall, golygai hyn fod plant a phobl ifanc heb oruchwyliaeth o dan eu gorchmynion llys am gyfnodau, gan roi'r neges fod cydymffurfio â gorchmynion llys yn ddibwys. Yn yr un modd, lle'r oedd staff lleoliadau heb ddim neu fawr ddim gwybodaeth am y plentyn neu berson ifanc yn mynd gyda hwy i'r llys, roedd hyn yn rhoi neges bwerus i'r plentyn neu berson ifanc am eu diffyg pwysigrwydd yn ogystal ag effeithio ar ansawdd a chyflymder penderfyniadau barnwrol. Yn ogystal, canfuom fod staff lleoliadau ac asiantaethau eraill yn aml yn methu â gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag ymddygiad heriol yn y cartref plant a'i rwystro rhag cael ei droseddoli.

### Pontio rhwng asiantaethau

4.21. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod cynllun llwybr ar gyfer Plentyn sy'n Derbyn Gofal wedi cael ei gwblhau cyn penblwydd y plentyn neu berson ifanc yn un ar bymtheg oed. Mae'r cynllun yn un tyngedfennol a dylai roi manylion am anghenion a dyheadau ym meysydd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, llety, cymorth personol a chynllunio wrth gefn ymysg eraill. Mae gan blant a phobl ifanc hawl i gymorth sydd wedi ei ddiffinio'n glir a gall hyn barhau tan y byddant yn 24 oed mewn rhai achosion. Yn ymarferol, yn yr achosion yr edrychasom arnynt, roedd y cymorth yn cilio'n sylweddol pan oeddent yn cyrraedd eu 16 oed. Ychydig o dystiolaeth a welsom o strategaeth hirdymor nac o weithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd gyda'r plentyn neu berson ifanc i baratoi a chynllunio ar gyfer y symudiad allan o ofal ac at fyw annibynnol.

4.22. Roedd yr holl achosion yn y sampl yn dal i gael eu rheoli gan Dimau Troseddwyr Ifanc er bod rhai o'r bobl ifanc yn tynnu at eu deunawfed penblwydd. Arfer gyffredinol Timau Troseddwyr Ifanc yw peidio â throsglwyddo achosion i'r ymddiriedolaeth brawf leol yng nghanol goruchwyliaeth pan fo pobl ifanc yn cyrraedd 18 oni bai bod cyfnod hir o oruchwyliaeth yn dal ar ôl neu fod gwasanaethau oedolion yn cael eu hystyried yn fwy priodol. Ychydig o dystiolaeth a ganfuom fod staff Timau Troseddwyr Ifanc wedi bod yn chwarae rhan yn y cynllunio ar gyfer pontio at fyw mwy annibynnol a daethom i'r farn fod gweithio ar y cyd a gweithio gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn annigonol mewn bron i dri chwarter o'r achosion.

Cafodd Kelvin ei gymryd i ofal fel plentyn ifanc a'i fabwysiadu. Torrodd hyn i lawr pan honnodd gamdriniaeth gorfforol a chafodd ei leoli mewn ysgolion preswyl. Pan oedd yn 17 oed, cafodd ei osod mewn llety gwely a brecwast ac wedyn symudodd i fyw at ei hanner brawd a oedd ar orchymyn prawf am drosedd dreisgar. Nid oedd neb o'r gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud â'r achos wedi cysylltu â'r swyddog prawf i asesu'r risg yr oedd yn ei achosi. Ymosodwyd yn dreisgar ar Kelvin gan ei hanner brawd.

### Effaith ar blant a phobl ifanc

4.23. Roedd y diffyg cydweithio o ansawdd da'n arwain at lawer o ganlyniadau, nid y lleiaf oedd y gofynnir yr un cwestiynau dro ar ôl tro i blentyn neu berson ifanc ac efallai y gofynnir iddynt drafod pethau sy'n boenus gyda llawer o wahanol weithwyr proffesiynol sy'n ddieithriaid. Disgwylir iddynt ffurfio perthnasoedd newydd yn barhaus ac wedyn ffarwelio.

4.24. Nid ymddangosai'r un o'r asesiadau, gan unrhyw un o'r asiantaethau a welsom, fel petaent yn llawn ddeall ac ystyried yr effaith anferthol o fod mewn gofal ac o gael eu symud ymlaen yn barhaus.

4.25. Lawn cyn bwysiced, yw ansawdd y penderfynu a gaiff ei lesteirio gan asiantaethau nad ydynt yn ystyried y darlun llawn, ond yn gweld amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc trwy brism cyfrifoldebau eu hasiantaeth eu hunain. Ar ormod o achlysuron, yn yr achosion a arolygasom, nid ymddangosai gwasanaethau gofal cymdeithasol plant fel petaent yn deall effaith troseddu ar y plentyn neu berson ifanc ac ar blant a phobl ifanc eraill; nid ymddangosai Timau Troseddwyr Ifanc fel petaent yn llawn gydnabod yr angen i ddylanwadu ar y gwaith ehangach gyda'r plentyn neu berson ifanc ac nid oedd CAMHS na gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'n ei weld fel rhan o'u rôl i'w rannu wrth asesu risg.

4.26. Mewn llawer o'r achosion a arolygasom ni chafodd gwybodaeth allweddol ei drosglwyddo, ni chadwyd addewidion i blant a phobl ifanc, ni chyflawnwyd pethau y gofynnwyd amdanynt, a chafodd penderfyniadau eu gohirio'n barhaus.

4.27. Yn aml iawn, canfuom blant a phobl ifanc yn dynesu tuag at eu penblwydd yn un ar bymtheg, ar ôl cael addysg wael a thameidiog, heb ddim gwaith wedi ei wneud ar eu lles emosiynol, dim gwaith ar berthnasoedd teuluol a dim neu fawr ddim cynllunio ar gyfer pontio llwyddiannus at annibyniaeth. Ni welsom unrhyw enghreifftiau lle'r oedd Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi dal asiantaethau i gyfrif am weithio gwael rhwng asiantaethau.

Roedd Sam, dyn ifanc 17 oed, wedi cael ei gymryd i ofal yn ifanc. Roedd amheuon ei fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol. Roedd ef ei hun wedi cael honiadau o dreisio 12 o ferched ifanc yn ei erbyn ac o drais yn erbyn gofal staff.

Wrth iddo ddynesu at ei ddeunawfed penblwydd, roedd wedi cael ei osod mewn lleoliad ynysig, gwledig gyda staffio dau-i-un a oedd yn adlewyrchu'r graddau o oruchwyliaeth y teimlai'r awdurdod lleol i fod yn angenrheidiol er mwyn ei gadw ef a phobl eraill yn ddiogel. Roedd lleoliad preswyl Sam i fod i orffen o fewn mater o fisoedd yr un pryd ag oedd ei oruchwyliaeth gan y Tîm Troseddwyr Ifanc yn dod i ben. Nid oedd ganddo unrhyw gyswllt â'i deulu. Er gwaethaf pedwar asesiad diweddar, ar wahân, nid oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer llety yn y dyfodol. Roedd hyn â'r potensial o'i adael heb fawr ddim cefnogaeth a dim rheolaeth o'r risg yr oedd yn parhau i'w achosi i bobl eraill.

## Casgliad

4.28. Mae amgylchiadau bywydau'r plant a phobl ifanc hyn a'r nifer o wahanol asiantaethau sy'n ymwneud â hwy'n golygu bod gweithio ar y cyd yn hanfodol. Roedd yn neilltuol o siomedig felly gweld pa mor haearnaidd o ddyranedig yr oedd. Gwelsom lawer o waith caled yn cael ei gyfeirio gan staff unigol at amcanion a phrosesau eu hasiantaethau eu hunain gyda'r plentyn neu berson ifanc yng nghanol unrhyw nifer o asesiadau a chynlluniau heb dystiolaeth fod dim byd wedi newid na gwella. Yn ogystal, canfuom ormod o barodrwydd i dderbyn dim byd mwy na'r angen i reoli'r plant a'r bobl ifanc hyn trwy'r system, diffyg uchelgais am eu dyfodol ac absenoldeb cynllunio hirdymor. Nid oedd Swyddogion Adolygu Annibynnol, a allai fod wedi chwarae rhan gref mewn sicrhau bod gwaith yr holl asiantaethau'n cael ei gydgysylltu'n iawn er budd y plentyn neu berson ifanc, yn gweld hyn fel eu rôl.

# Atodiad 1: Deddfwriaeth a Chanllawiau

Mae corff sylweddol o ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n gosod seiliau i'r gwaith gyda'r grŵp hwn o blant a phobl ifanc. Rydym yma wedi amlinellu'n fyr yr hyn a ystyriwn i fod y mwyaf perthnasol ar gyfer yr arolygiad hwn.

## Polisi Cenedlaethol

Ar lefel genedlaethol, yr Adran Addysg [yn Llundain] sy'n gyfrifol am blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, trwy'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, yn gyfrifol am wasanaethau i blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu. Mae'r Gweinidog Plant yn ymgynnull cyfarfod traws-lywodraethol o Weinidogion, gan gynnwys y Gweinidog Cyfiawnder, i annog dull mwy cydgysylltiedig o lunio polisïau.

Ofsted yw'r Swyddfa dros Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau. Mae Ofsted yn arolygu ac yn rheoleiddio gwasanaethau sy'n gofalu am blant a phobl ifanc, a'r rheini sy'n darparu addysg a sgiliau i ddysgwyr o bob oed. Mae Ofsted yn adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd ac mae'n annibynnol a diduedd. Maent yn asesu gwasanaethau plant mewn ardaloedd lleol, ac yn arolygu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, diogelu ac amddiffyn plant.

Yng Nghymru, mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru'n arolygu ac yn adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, ac yn rheoleiddio ac arolygu lleoliadau gofal ac asiantaethau gan gynnwys cartrefi plant ac ysgolion arbennig preswyl. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru'n cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'n arolygiaeth annibynnol o fewn adran o Lywodraeth Cymru.

## Gwaith gyda throseddwyr ifanc

Sefydlwyd Timau Troseddwyr Ifanc o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 gyda'r diben o leihau'r risg o blant a phobl ifanc yn troseddu ac aildroseddu. Mae Timau Troseddwyr Ifanc yn goruchwylio plant a phobl ifanc ar remànd a orchmynwyd gan lysoedd a gorchmynion cymunedol a gwaith gyda'r rheini sydd wedi derbyn dedfrydau o gadw dan glo.

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn rhoi cyfeiriad i Dimau Troseddwyr Ifanc ac yn monitro perfformiad. Mae *Safonau Cenedlaethol 2009*[9] ynghyd â'r *Dull Graddedig*[10] yn rhoi canllawiau ar gyfer asesu a chynllunio ac yn awgrymu lefelau o gyswllt ac ymyrryd. Mae'r Protocol dros Gyfrifoldeb Achosion (Lloegr yn unig), *Practice advice for youth offending teams* (di-ddyddiad) yn rhoi manylion am brosesau ar gyfer rheoli achosion ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

Mae Timau Troseddwyr Ifanc yn eistedd o fewn amrywiaeth o gyfarwyddiaethau trwy'r siroedd, yn bennaf ond nid yn unig, rhai'n ymwneud â diogelwch plant neu ddiogelwch cymunedol. **Gall** goruchwyliaeth gorchmynion llys ddal i fod yn gyfrifoldeb y Tîm Troseddwyr Ifanc cartref ond yn cael ei gyflawni gan y Tîm Troseddwyr Ifanc lletyol, gall gael ei drosglwyddo, neu gall y Tîm Troseddwyr Ifanc cartref benderfynu dal gafael ar y gwaith o'u cyflawni.

Fe wnaeth canllawiau cyfreithiol Gwasanaeth Erlyn y Goron ar droseddwyr ifanc[7] ddisgrifio'r penderfyniad i erlyn ymddygiad troseddol o fewn cartref plant fel penderfyniad mawr i'w gymryd gan arbenigwr ieuenctid. Cydnabu bod trigolion cartrefi plant mewn risg uchel o aildroseddu o ganlyniad i'r math o leoliad y maent yn byw ynddo. Dylai'r rhesymau dros y

penderfyniad i gyhuddo/dargyfeirio gael ei gofnodi'n glir a dangos y ffactorau sydd wedi cael eu hystyied gan arbenigwr ieuenctid i benderfynu sut y caiff budd y cyhoedd ei ddiwallu.

## Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

Mae'r Adran Addysg (yn Llundain) wedi cyhoeddi'r *Canllawiau Statudol ar Rolau a Chyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant a'r Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Plant 2012*.[11] Mae'r swyddogaethau y maent yn gyfrifol amdanynt wedi eu pennu yn adran 18(2) o Ddeddf Plant 2004. Mae hyn yn cynnwys (ond nid yw wedi ei gyfyngu i) gyfrifoldeb am blant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg neu wasanaethau gofal cymdeithasol plant yn eu hardal a phob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu sydd yn y ddalfa (waeth lle maent wedi eu lleoli).

Roedd Deddf Plant 1989 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, canlyniad i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o safbwynt eu llety. Y canlyniad a ragwelwyd oedd y byddai'r llety o fewn ardal yr awdurdod ac y byddai'n diwallu eu hanghenion unigol.

Cafodd y term 'rhiant corfforaethol' ei gyflwyno yn 1998 a lansiodd y cysyniad o gydgyfrifoldeb o fewn awdurdodau lleol am rianta da plant a phobl ifanc mewn gofal cyhoeddus. Roedd yn gorchymyn bod yn rhaid i'r awdurdod lleol gael yr un diddordeb yng nghynnydd a chyraeddiadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ag y byddai gan riant cyfrifol **am eu plant eu hunain.** Roedd yn rhagweld uwch swyddogion ynghyd â'r aelod arweiniol dros wasanaethau plant fel y rhai a oedd yn atebol am y cyfrifoldebau hun.

Cafodd *Canllawiau statudol ar sicrhau llety digonol i blant sy'n derbyn gofal*[12] ei gyhoeddi gan yr Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoeedd yn 2010. Cafodd y canllawiau hyn eu cyflwyno i "wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal". Ers iddo ddod i rym yn Ebrill 2011, "rhaid i awdurdodau lleol fod mewn sefyllfa i sicrhau, lle bo'n rhesymol ymarferol, lety digonol i Blant sy'n Derbyn Gofal yn ardal eu hawdurdod lleol".

Daeth Rheoliadau newydd Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Lloegr)[13] i rym yn Ebrill 2011. Cawsant eu llunio ar gyfer gwella ansawdd a chysondeb cynllunio gofal, lleoli ac adolygu achosion i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Roeddent yn anelu hefyd at wella'r gofal a'r cymorth a ddarperir i'r rhai sy'n gadael gofal. Ymysg pethau eraill roeddent yn amlinellu rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol. Roedd hyn yn cael ei weithredu yng Nghymru gan Reoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007[14].

## Y Swyddog Adolygu Annibynnol

Mae penodi Swyddog Adolygu Annibynnol yn ofyniad cyfreithiol o dan Adran 118 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gwneud cyfraniad pwysig at y nod o wella canlyniadau'n sylweddol i blant sy'n derbyn gofal. Eu prif bwyslais yw sicrhau ansawdd y broses cynllunio gofal ar gyfer pob plentyn, a sicrhau bod eu dymuniadau a'u teimladau ar y pryd yn cael ystyriaeth lawn.

Mae *The IRO Handbook* 2011[15] yn darparu canllawiau i Swyddogion Adolygu Annibynnol ynghylch sut y dylent gyflawni eu dyletswyddau penodol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Nod y llawlyfr oedd sicrhau gwell canlyniadau i blant a darparu'r cymorth a'r gwasanaethau yr oedd ar bob un eu hangen i'w galluogi hwy i gyrraedd eu potensial.

Mae Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000, Rheoliadau Ymadawyr â Gofal (Lloegr) 2010[16] a Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal (Cymru)) 2001[17] yn gwneud darpariaeth ar gyfer y

cyngor, cymorth a chefnogaeth y mae awdurdodau lleol yn eu darparu i blant a phobl ifanc 16 oed a throsodd sy'n gadael gofal. Mae'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth ar gyfer asesiad awdurdodau lleol o anghenion y bobl ifanc hyn, ynghylch paratoi 'cynllun llwybr' yr awdurdodau lleol i'w darparu hwy â chyngor, cymorth a chefnogaeth, ac yn pennu swyddogaethau'r ymgynghorwyr personol a benodir ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae'n ofynnol i ddarparwyr cartrefi plant yn Lloegr gydymffurfio â rheoliadau cartrefi plant, cael eu cofrestru, eu rheoleiddio a'u monitro gan Ofsted ac yng Nghymru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

### Addysg

Mae'r cyfrifoldeb dros drefnu addysg yn gorwedd sy'n awdurdod sy'n lleoli, fodd bynnag unwaith mae plentyn neu berson ifanc yn byw o fewn ardal, mae gan yr awdurdod lleol lletyol ddyletswydd tuag at y plentyn neu berson ifanc i ddarparu addysg.

### Gweithio ar y cyd

Mae *Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu plant*[18] yn pennu sut y dylai sefydliadau ac unigolion weithio gyda'i gilyddd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc yn unol â Deddf Plant 1989 a Deddf Plant 2004.

Roedd y *tîm o gwmpas y plentyn* yn fodel o gyflawni gwasanaeth. Roedd yn cynnwys tim amlasiantaethol o ymarferwyr a sefydlwyd fesul achosion unigol i gefnogi plentyn, person ifanc neu deulu. Roedd y tîm o gwmpas y plentyn yn cefnogi elfennau penodol o arferion proffesiynol da mewn gweithio cydgysylltiedig, rhannu gwybodaeth ac ymyrryd cynnar. Y syniad oedd lleoli'r plentyn neu berson ifanc a'u teulu yng nghanol y broses, cael asesiad cydgysylltiedig a swyddog proffesiynol arweiniol i gydlynu gwaith.

# Atodiad 2: Geirfa

| | |
|---|---|
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau ymddygiadol arbenigol i blant a phobl ifanc hyd at o leiaf 16 oed |
| Deddf Plant 1989 – Adran 47 | Mae Adran 47 o Ddeddf Plant 1989 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud ymholiadau i amgylchiadau plant yr ystyrir eu bod mewn risg o 'niwed sylweddol' a, lle bo'r ymholiadau hyn yn dangos yr angen, i gyflawni ymchwiliad llawn i amgylchiadau'r plentyn |
| CPS | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| DfE | Yr Adran Addysg (yn Llundain) |
| Estyn | Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| HM | Ei Mawrhydi |
| HMI Probation | Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi |
| Tîm Troseddwyr Ifanc cartref | Mae'n cyfeirio at y Tîm Troseddwyr Ifanc lle mae'r plentyn neu berson yn byw fel arfer neu, yn achos Plentyn sy'n Derbyn Gofal, Tîm Troseddwyr Ifanc yr awdurdod lleol sy'n lleoli |
| Tîm Troseddwyr Ifanc lletyol | Mae'n cyfeirio at y Tîm Troseddwyr Ifanc sy'n darparu gwasanaethau cyfiawnder troseddol i blentyn neu berson ifanc nad yw'n arferol yn byw o fewn ardal ddaearyddol y Tîm Troseddwyr Ifanc hwnnw |
| IRO | Swyddog Adolygu Annibynnol |
| Ofsted | Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau: yr Arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny yn Lloegr (nid yng Nghymru, gweler Estyn) |
| Diogelu | Goruchwylir gan y Byrddau Lleol Diogelu Plant: a sefydlwyd ym mhob awdurdod lleol (o ganlyniad i Ddeddf Plant 2004) i gydgysylltu a sicrhau effeithiolrwydd y gwaith amlasiantaethol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc yn yr ardal honno |
| YJB | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr |
| YOT/YOS/YJS | Tîm Troseddwyr Ifanc/Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc/Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |

# Atodiad 3: Rôl yr arolygiaethau a chod ymarfer

### Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan:

**http://www.justice.gov.uk/about/hmi-probation**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylw ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall o fewn ei gylch gwaith ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Probation*
*6th Floor, Trafford House*
*Chester Road, Stretford*
*Manchester M32 0RS*

### Estyn

Mae gwybodaeth am Rôl Estyn a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan:

**http://www.estyn.gov.uk/**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylw ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall o fewn ei gylch gwaith ysgrifennu at:

*Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*
*Anchor Court, Keen Road*
*Caerdydd CF24 5JW*

### Ofsted

Mae gwybodaeth am Rôl Osted a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan:

**http://www.ofsted.gov.uk/**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylw ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall o fewn ei gylch gwaith ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Standards in Education, Children's Services and Skills*
*Aviation House, 125 Kingsway*
*London, WC2B 6SE*

# Atodiad 4: Cyfeiriadau

---

1. (Mai 2011) *The care of looked after children in custody: A short thematic review*, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, Llundain

2. (Mai 2011) *The hidden truth about homelessness*, Crisis, Llundain

3. (Ionawr 2011) *From Care to Independence: Improving employment outcomes for care leavers* Reed in Partnership Ltd, Llundain

4. (Hydref 2009) Lamont, E., et al. *provision of mental health services for care leavers: transition to adult service*s, Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, Slough

5. (Ionawr 2012) Yr Athro Gillian Schofield et al *Research study - Looked after children and offending: Reducing risk and promoting resilience*, TACT, Llundain

6. (Mawrth 2012) CHILDREN'S HOMES IN ENGLAND DATA PACK, Adran Addysg, Swydd Caer

7. Troseddwyr Ifanc: Canllawiau Cyfreithiol, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Llundain, http://www.cps.gov.uk/legal/v_to_z/youth_offenders/

8. (2010) *National Protocol for Case Responsibility (England Only): Practice advice for youth offending teams*, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, Llundain

9. (2010) *Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid*, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, Llundain

10. (2010) *Cyfiawner Ieuenctid: y Dull Graddedig*, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, Llundain

11. (Ebrill 2012) *CANLLAWIAU STATUDOL AR ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWR GWASANAETHAU PLANT A'R AELOD ARWEINIOL DROS WASANAETHAU PLANT 2012*, Adran Addysg, Swydd Caer

12. (2010) *Digonolrwydd: Canllawiau statudol ar sicrhau llety digonol i blant sy'n derbyn gofal*, Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, Nottingham

13. Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Lloegr) 2010

14. Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007

15. (Mawrth 2011) *IRO Handbook: Statutory guidance for independent reviewing officers and local authorities on their functions in relation to case management and review for looked after children*, Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Adolygu Annibynnol, Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, Nottingham

16. Rheoliadau Ymadawyr â Gofal (Lloegr) 2010

17. Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) 2001

18. (Mawrth 2010) *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant: Canllawiau ar gyfer gweithio amlasiantaethol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant*, Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, Nottingham

Criminal Justice
Joint Inspection

Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

ISBN: 978-1-84099-584-8